


Rhif ymchwil gymdeithasol: 88/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/09/2026

Grantiau Cyfalaf Diwylliant yng Nghymru 2021 i 2026: asesiad cychwynnol o gynnydd ac effeithiau sy'n datblygu



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Grantiau Cyfalaf Diwylliant yng Nghymru 2021 i 2026: asesiad cychwynnol o gynnydd ac effeithiau sy'n datblygu.



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Grantiau Cyfalaf Diwylliant yng Nghymru 2021 i 2026: asesiad cychwynnol o gynnydd ac effeithiau sy'n datblygu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 88/2026.

Ar gael yn: [Ystadegau ac ymchwil | Cyhoeddwyd | LLYW.CYMRU](#)

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Is-adran Diwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Diwylliant@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	6
Geirfa	7
1. Cyflwyniad a chefnidir	9
1.1. Cefndir	9
1.2. Nodau ac amcanion y prosiect ymchwil	9
1.3. Strwythur yr adroddiad hwn	10
2. Methodoleg	11
2.1. Dull gwerthuso	11
2.1.1. Cwmpasu'r prosiect	11
2.1.2. Gweithdy model rhesymeg	12
2.1.3. Dadansoddi a syntheseiddio'r canlyniadau	12
2.1.4. Datblygu rhestr o ddangosyddion craidd	13
3. Model rhesymeg	15
3.1 Cyflwyniad i'r model rhesymeg	15
3.2 Strwythur a chynnwys y model rhesymeg	15
3.2.1 Mewnbynnau	19
3.2.2 Gweithgareddau	19
3.2.3 Allbynnau	19
3.2.4 Canlyniadau	20
3.2.5 Effeithiau	21
4. Canfyddiadau	23
4.1. Cynnydd wrth weithredu'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant	23
4.1.1. Theatr Clwyd	23
4.1.2. Amgueddfa Bêl-droed Cymru	25
4.1.3. CELF	25
4.1.4. Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid	26
4.1.5. Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau	27
4.2. Effeithiau datblygol o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant	28
4.2.1. Canfyddiadau sy'n ymwneud ag allbynnau	29
4.2.2. Canfyddiadau sy'n ymwneud â chanlyniadau'r rhaglen	34
4.3. Gweithgareddau gwerthuso arfaethedig	41
4.3.1. Gweithgareddau gwerthuso ffurfiol arfaethedig	42

4.3.2	Monitro dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel prosiect	43
5.	Casgliad ac argymhellion	44
Atodiad A. Model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant		49
1.	Mewnbynau cyllidebol	49
2.	Gweithgareddau	49
3.	Allbynau (gyda dadansoddiadau)	50
4.	Canlyniadau (gyda dadansoddiadau)	52
5.	Effeithiau (newidiadau hirdymor)	54
Atodiad B. Fframwaith dangosyddion craidd i ategu'r gweithgarwch monitro Grantiau Cyfalaf Diwylliant		55
1.	Datblygu seilwaith ffisegol	57
	Diben a pherthnasedd	57
	Cymhwysedd a'r gallu i gymharu	57
	Dangosyddion o berfformiad allweddol cymaradwy	57
	Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	57
2.	Maint a darpariaeth gwasanaethau	58
	Diben a pherthnasedd	58
	Cymhwysedd a'r gallu i gymharu	58
	Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	58
	Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol	58
	Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	59
3.	Cyfleoedd cyflogaeth neu wirfoddoli â chymorth	59
	Diben a pherthnasedd	59
	Cymhwysedd a'r gallu i gymharu	59
	Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	59
	Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	60
4.	Darpariaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg	60
	Diben a pherthnasedd	60
	Cymhwysedd a'r gallu i gymharu	60
	Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	60
	Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol	61
	Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	61
5.	Nifer yr ymwelwyr	61

Diben a pherthnasedd	61
Cymhwysedd a'r gallu i gymharu.....	61
Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	62
Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	62
6. Perfformiad carbon ac effeithlonrwydd ynni	63
Diben a pherthnasedd	63
Cymhwysedd a'r gallu i gymharu.....	63
Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	64
Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	64
7. Hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau	64
Diben a pherthnasedd	64
Cymhwysedd a'r gallu i gymharu.....	65
Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy	65
Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol	65
Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro	65

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant16

Ffigur 2: Dadansoddiad o'r allbynnau17

Ffigur 3: Dadansoddiad o'r canlyniadau.....18

Geirfa

Datblygiad cyfalaf Theatr Clwyd

Ailddatblygiad cyfalaf mawr yn Theatr Clwyd, theatr gynhyrchu fwyaf Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â seilwaith sy'n heneiddio a gwella diogelwch, hygyrchedd a chynaliadwyedd. Cyflwynodd y prosiect well mannau perfformio, cymunedol a chyhoeddus, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol, er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor y lleoliad ac ehangu ei arlwy diwylliannol.

Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau

Rhaglen grantiau bwrpasol a ddarparodd gyllid cyfalaf i amgueddfeydd ac archifau i wella'u ffyrdd o storio a rheoli casgliadau. Wedi ei datblygu mewn ymateb i anghenion y sector, cynorthwyodd y rhaglen waith adeiladu, gwelliannau i offer a seilwaith er mwyn sicrhau bod casgliadau yn cael eu storio mewn amodau priodol a'u rheoli'n fwy effeithiol.

Grantiau Cyfalaf Diwylliant

Cyfes o grantiau cyfalaf a ddarperir gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor y Senedd rhwng 2021 a 2026, a Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant. Mae'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn cynnwys portffolio amrywiol o grantiau a oedd, o fewn cwmplas yr ymchwil hon, yn cynnwys tri phrosiect cyfalaf mawr (datblygiad cyfalaf Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru ac Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru – CELF), 31 o brosiectau a gynorthwywyd gan y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid ers 2021, ac wyth prosiect a gynorthwywyd gan y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau.

Amgueddfa Bêl-droed Cymru

Prosiect cyfalaf i sefydlu amgueddfa bêl-droed genedlaethol o fewn Amgueddfa Wrecsam. Bydd yr ailddatblygiad yn creu oriel newydd, mannau ar gyfer dysgu ac ymwelwyr, ochr yn ochr â gwelliannau i'r seilwaith, i arddangos treftadaeth pêl-droed Cymru o fewn adeilad Amgueddfa Wrecsam, a gwella rôl yr amgueddfa fel cyrchfan ddiwylliannol a chyrchfan ymwelwyr.

Achos busnes llawn

Dogfen fanwl a ddefnyddir i gyfiawnhau ymgymryd â phrosiect. Mae wedi ei strwythuro o amgylch y Model Pump Achos, sy'n cynnwys nodi achos strategol, achos economaidd, achos masnachol, achos ariannol ac achos rheoli menter. Yn ogystal, mae'r achos busnes llawn yn cofnodi'r trefniadau contractiol, yn cadarnhau fforddiadwyedd, ac yn rhoi'r trefniadau rheoli y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer cyflenwi, monitro ac ôl-werthuso prosiect ([Trysorlys Ei Fawrhydi, 2024](#)).

Dangosyddion perfformiad allweddol

Diffinnir dangosydd perfformiad allweddol yn Neddf Caffael 2023 fel ffactor neu fesur y gellir asesu perfformiad cyflenwr o ran cyflawni contract yn ei erbyn yn ystod cylch oes y contract ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Model rhesymeg

Mae model rhesymeg yn ffordd strwythuredig o ddisgrifio sut y disgwylir i ymyriad greu newid.

Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru (CELF)

Menter genedlaethol a greodd oriel celf gyfoes i Gymru drwy fodel partneriaeth wasgaredig yn cynnwys nifer o sefydliadau ledled Cymru. Cyfunodd y rhaglen fuddsoddiad cyfalaf mewn orielau partner â gwaith digideiddio casgliadau, gyda'r nod o gynyddu mynediad at gelf gyfoes a chryfhau cydweithio ar draws y sector.

Taflen echdynnu ymchwil

Offeryn mewnol a ddefnyddir i gasglu a threfnu tystiolaeth a dynnir o ddogfennaeth prosiect yn systematig.

Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid

Rhaglen grantiau sy'n cynorthwyo amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol i foderneiddio cyfleusterau, gwella cynaliadwyedd, a gwella cyflenwad gwasanaethau. Dyfernir cyllid i brosiectau unigol i gynorthwyo gwelliannau cyfalaf, trawsnewid gwasanaethau, a gweithio ar y cyd, gyda'r nod o gryfhau'r ddarpariaeth ddiwylliannol ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1. Cefndir

Mae [Cynllun Cyllid Seilwaith](#) Llywodraeth Cymru yn nodi diwylliant fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant meddyliol a chorfforol pobl ledled y wlad, tra hefyd yn cyfoethogi addysg, yn diogelu hanes, yn cefnogi twristiaeth, ac yn cryfhau presenoldeb cyffredinol Cymru ar y llwyfan byd-eang. O ystyried y rôl ddiffiniol a chwaraeir gan y sector diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys gan y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a'r sectorau amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei [Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant](#) yn 2025 i arwain datblygiad y sector. Nod y blaenoriaethau hyn yw hyrwyddo nifer o uchelgeisiau diwylliannol, gan gynnwys sicrhau bod diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol; adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc; gofalu am gasgliadau ac asedau, cefnogi arferion digidol da a chefnogi datblygu cynaliadwy, cyflawni sero net a mynd i'r afael â'r argyfyngau o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd.

Mae diwylliant (gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth) wedi bod yn ganolog i lawer o ymrwymadau'r [Rhaglen Lywodraethu \(2021 i 2026\)](#). Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau cyfalaf penodol mewn nifer o brosiectau diwylliannol proffil uchel, megis Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol (CELF). Darperir buddsoddiad cyfalaf yng Nghymru hefyd i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy sianeli eraill, megis y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau. Gyda'i gilydd, mae buddsoddiad cyfalaf diwylliannol o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu arlwy diwylliannol unigryw ac amrywiol Cymru, yn ogystal â hyrwyddo a gwreiddio'r Gymraeg ynddi, fel y nodwyd gan [Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#). O ystyried maint a phroffil buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yng Nghymru, mae'n bwysig deall sut, ac i ba raddau, y mae buddsoddiadau o'r fath yn cefnogi uchelgeisiau diwylliannol ehangach Llywodraeth Cymru.

1.2. Nodau ac amcanion y prosiect ymchwil

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics (ym mis Ionawr 2026) i gynnal gwerthusiad o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yng Nghymru (2021 i 2026). Nod y gwerthusiad hwn yw darparu **asesiad ar adeg benodol (Mawrth 2026)** o'r graddau y mae'r grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd gan yr Is-adran Ddiwylliant wedi cyflawni eu hamcanion datganedig wrth i dymor y Senedd (2021 i 2026) ddod i ben. Mae'r cwestiynau ymchwil sy'n berthnasol i'r ymchwil hon fel a ganlyn:

- I ba raddau y mae prosiectau a ariannwyd gan grantiau wedi cyflawni eu nodau a'u hamcanion o ran allbwn, pan fo modd, ar hyd eu hamserlenni priodol?
- I ba raddau a pha rai o'r canlyniadau a'r effeithiau bwriadedig a gyflwynir ym model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant sydd wedi eu gwireddu, pan fo modd, a chynaliadwyedd y canlyniadau a'r effeithiau hyn?
- A oes unrhyw ganlyniadau ychwanegol, anfwriadol wedi bod o ganlyniad i weithgarwch a ariannwyd gan grant?

- Diweddarau'r model rhesymeg drafft i adlewyrchu nodau, gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglen gyfredol yn well?
- Beth yw gweithgareddau ac amserlenni gwerthuso'r rheini sy'n derbyn y grantiau yn y dyfodol?
- I ba raddau y defnyddir y mesuriadau o ran dangosyddion perfformiad allweddol o'u cymharu ar draws y prosiectau? A oes modd safoni'r rhain ar draws prosiectau?
- Pa fylchau o ran tystiolaeth sy'n bresennol ar hyn o bryd o fewn y model rhesymeg?
- Pa ddata ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i'w casglu i asesu effeithiau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant ac unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a nodwyd?
- Pa wersi y gellir eu dysgu o werthuso'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant?

Mae'r canlynol o fewn cwmphas y gwerthusiad:

- Tri phrosiect cyfalaf mawr: Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a CELF
- Y Grantiau Cyfalaf Trawsnewid (o 2022 ymlaen)
- Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau

Mae'r gwerthusiad yn bennaf yn defnyddio **dull synthesis pen desg**, gan adolygu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ar draws amrywiol adroddiadau prosiect a dogfennau polisi a ddarparwyd inni yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r synthesis hwn yn asesu i ba raddau y mae allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi eu gwireddu hyd yn hyn. Yn ogystal, mae'r gwerthusiad hwn hefyd yn cynhyrchu **model rhesymeg** ar gyfer y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, yn mapio'r gweithgareddau gwerthuso sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol gan y rheini sydd wedi cael y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, ac yn darparu argymhellion ar ba ddata ychwanegol y dylid eu casglu i helpu i ddangos eu heffeithiau.

Nod canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yw llywio grantiau cyfalaf yn y dyfodol a gefnogir gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1.3. Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- mae **Pennod 2** yn rhoi trosolwg o'r dull a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant.
- mae **Pennod 3** yn cyflwyno'r model rhesymeg ar gyfer y rhaglen.
- mae **Pennod 4** yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, gan gynnwys y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gweithredu, a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r grantiau cyfalaf. Mae hefyd yn mapio'r amrywiol ddulliau gwerthuso sy'n cael eu cynllunio gan brosiectau.
- mae **Pennod 5** yn cloi'r adroddiad hwn ac yn cynnig argymhellion.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn crynhoi'r dull a ddefnyddiwyd i gyflawni ein gwerthusiad ar adeg benodol o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yng Nghymru.

2.1. Dull gwerthuso

At ei gilydd, mae portffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant sy'n cael ei ystyried o fewn cylch gwaith y gwaith hwn yn cynnwys **41 o grantiau**^{Troednodyn¹}. Mae'r rhain yn cynnwys y tri phrosiect cyfalaf mawr (Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a CELF), yn ogystal â 31 o grantiau llai sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid ac wyth grant llai o'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau (y mae chwech ohonynt o fewn cwmplas y gwerthusiad hwn). Roedd y grantiau hyn yn amrywio'n sylweddol o ran eu natur, eu maint, eu blaenoriaethau a'u hamserlenni. O ystyried yr ystod bosibl o wahanol weithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau sy'n deillio o'r prosiectau hyn, mae her o ran gallu crynhoi unrhyw effeithiau datblygol ar lefel ehangach y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, tra'n casglu tystiolaeth o'r buddion y mae pob prosiect yn eu dwyn ar yr un pryd.

O ganlyniad, cafodd y gwerthusiad hwn ei lywio yn bennaf gan synthesis pen desg o ddogfennaeth ar lefel prosiect a rannwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddeall y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gweithredu, a'r effeithiau datblygol ar bortffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau diwedd prosiect, gwerthusiadau dros dro, llythyrau ceisiadau am grant a dyfarniadau, adroddiadau achos busnes llawn, adroddiadau porth, dogfennau polisi, adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau grŵp llywio prosiectau cyfalaf a model rhesymeg mewnol sy'n bodoli eisoes ac yn berthnasol i sawl prosiect o fewn cwmplas y gwerthusiad hwn, a ddatblygwyd yng nghyd-destun y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dulliau diweddar eraill a ddefnyddir i werthuso prosiectau yng nghamau cymharol gynnar o'r broses gweithredu o fewn y sectorau diwylliannol, creadigol a threftadaeth. Er enghraifft, yn yr un modd, roedd asesiad blwyddyn gyntaf rhaglen [Treftadaeth 2033](#) yn tynnu'n bennaf ar geisiadau grant sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na data cwblhau prosiectau, gan gydnabod bod llawer o brosiectau a ariannwyd yn dal i fod yng nghamau cynnar y broses gyflawni ac nad oeddent wedi gwireddu eu heffeithiau bwriadedig yn llawn eto.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth gynnal y gwerthusiad hwn.

2.1.1. Cwmpasu'r prosiect

Ar ddechrau'r gwerthusiad hwn, adolygwyd sampl gychwynnol o'r ddogfennaeth ar lefel y prosiect, gan roi dealltwriaeth inni o'r prosiectau grant cyfalaf unigol, eu meysydd effaith

Troednodyn

¹ Mae'n bwysig nodi bod prosiectau cyfalaf eraill a ariennir yn ystod y cyfnod hwn (2021–2026) nad ydynt yn dod o dan ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu yn swyddogol yn cael sylw yn y gwaith hwn ac o fewn ei gwmpas. Ni ystyrir prosiectau o'r fath yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn golygu y gallai cyfanswm y buddion a gynhyrchir gan fuddsoddiadau cyfalaf diwylliannol yng Nghymru fod yn fwy na dim ond y rheini a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

bwriadedig, a chyd-destun ehangach y Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Roedd y prif ddogfennau a adolygwyd yn y cam hwn yn cynnwys (i) adroddiadau achos busnes llawn, (ii) sampl o adroddiadau diwedd prosiect, (iii) gwerthusiadau sy'n bodoli eisoes, a (iv) y model rhesymeg fewnol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i sawl prosiect o fewn cwrmpas y Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Cynhaliwyd cyfres o bum trafodaeth cwrmpasu gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ar draws y gwahanol raglenni grant. Ceisiodd y trafodaethau hyn ymdrin â phynciau megis (i) cefndir a chyd-destun pob grant, (ii) y prif brosesau sy'n sail i gyflawni'r rhaglenni grant, (iii) unrhyw fuddion datblygol sy'n gysylltiedig â'r tri phrosiect mawr a'r dwy raglen, (iv) yr heriau a wynebwyd yn ystod y broses gweithredu, a (v) mynediad at ddata neu ddogfennaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r gwerthusiad.

2.1.2. Gweithdy model rhesymeg

Yn seiliedig ar yr adolygiad cychwynnol o ddogfennaeth a'r trafodaethau cwrmpasu, nodwyd yr elfennau cyffredin ar draws portffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant a'u syntheseiddio'n fodel rhesymeg. Y nod oedd cynrychioli'n gywir y mewnbynnau, y gweithgareddau a'r allbynnau, y canlyniadau a'r effeithiau disgwylidig o'r gwahanol raglenni o fewn un fframwaith cyffredinol.

Cyflwynwyd a thrafodwyd y model rhesymeg yn ystod gweithdy model rhesymeg a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026. Roedd y gweithdy hwn yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru o'r tri phrosiect mawr a'r ddwy raglen, a chasglwyd a defnyddiwyd eu hadborth i fireinio a chwblhau model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant ymhellach.

2.1.3. Dadansoddi a syntheseiddio'r canlyniadau

Yn dilyn y gweithdy model rhesymeg, cynhaliwyd adolygiad manwl o'r set lawn o ddogfennau ar lefel y prosiect. Cafodd gwybodaeth o bob prosiect a'i grantiau cysylltiedig ei hechdynnu'n systematig, a'i chofnodi mewn taflen echdynnu ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys dogfennu dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd, disgrifiadau naratif o allbynnau ac effeithiau prosiectau, effeithiau a amlinellir mewn cynlluniau gwireddu buddion, yn ogystal â gwybodaeth arall megis yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Cafodd yr wybodaeth a dynnwyd ei chategoreiddio o fewn y daflen echdynnu ymchwil fel buddion a wireddwyd neu fuddion bwriadedig. Roedd buddion a wireddwyd yn cyfeirio at allbynnau neu ganlyniadau a oedd eisoes wedi eu cyflawni, a ddangosir fel arfer drwy brosiectau wedi eu cwblhau, neu argaeledd adroddiadau diwedd prosiect yn achos y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid. Roedd buddion bwriadedig yn cyfeirio at ganlyniadau yr oedd prosiectau wedi eu nodi fel targedau ond nad oeddent wedi eu cyflawni eto, yn bennaf oherwydd bod sawl prosiect yn dal i fod yn destun gwaith cyfalaf, neu dim ond yn ddiweddar wedi dod yn weithredol ar adeg y gwerthusiad. Cafodd pob un o'r buddion eu mapio ymhellach i wahanol themâu allbwn a chanlyniad a nodwyd o fewn model rhesymeg rhaglen y Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Galluogodd y dull systematig hwn o adolygu'r ddogfennaeth y prif fylchau data yn y gwerthusiad i gael eu nodi. Yn dilyn ymgynghori â Llywodraeth Cymru, cytunwyd i addasu ein dull gwreiddiol i roi llai o bwyslais yn y gwerthusiad hwn ar weithgareddau casglu data sylfaenol (gan gynnwys arolwg a chyfweliadau lled-strwythuredig). Y bwriad o ran y newid hwn oedd osgoi dyblygu gweithgareddau gwerthuso presennol a oedd eisoes yn cael eu cynnal ar lefel y prosiect, a thrwy hynny leihau'r baich ar randdeiliaid ar lefel y prosiect i lefel fwy cymesur. Roedd y lefelau uchel o amrywiaeth ar draws y prosiectau a ariannwyd drwy'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant hefyd yn golygu bod llai o werth nag a ddisgwyliwyd mewn arolwg 'addas i bawb'. Yn lle hynny, mabwysiadodd y gwerthusiad ddull pen desg estynedig, lle cyflwynwyd ceisiadau data pwrpasol i randdeiliaid i gael dogfennaeth ychwanegol neu ddata penodol yr oedd eu hangen i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd. At ei gilydd, adolygwyd 169 o ddarnau o ddogfennaeth yn fanwl fel rhan o'r gwerthusiad.

Wedi hynny, cafodd y canfyddiadau a'r wybodaeth a gofnodwyd yn y daflen echdynnu ymchwil eu syntheseiddio ar draws prosiectau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredinol o gynnydd gweithredu ac effeithiau datblygol o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. O ystyried amrywiaeth y prosiectau o fewn portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, mae'r gwerthusiad hwn yn bennaf yn mabwysiadu synthesis naratif o ganfyddiadau. Nid oedd agregu meintiol o effeithiau ar draws prosiectau yn ymarferol nac yn ystyrion, oherwydd bod y prosiectau'n wahanol iawn o ran eu nodau, eu hamcanion, a'u dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Hyd yn oed lle mae dangosyddion tebyg yn bodoli, cânt eu casglu'n aml trwy wahanol ddulliau a'u cofnodi gan ddefnyddio gwahanol ddiffiniadau, gan gyfyngu ar y gallu i'w cymharu'n uniongyrchol. Ar ben hynny, ni fyddai agregu meintiol syml yn briodol o ystyried yr amrywiad sylweddol ym maint y prosiect, a lefelau ariannu ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, lle gallai cyfuno ffigurau o grantiau cymharol fach â rhai o brosiectau cyfalaf ar raddfa llawer mwy gamliwio'r dehongliad cyffredinol o'r canlyniadau. Yn hytrach, mae'r gwerthusiad hwn yn syntheseiddio tystiolaeth ar ffurf naratif ar draws prosiectau er mwyn nodi themâu cyffredin, allbynnau a chanlyniadau datblygol, a mewnwediadau ehangach sy'n ymwneud â'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn eu cyfanrwydd.

2.1.4. Datblygu rhestr o ddangosyddion craidd

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, mae cyfres o argymhellion wedi eu datblygu i gefnogi'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn y dyfodol, gyda phwyslais penodol ar wella'r graddau y gellir cymharu tystiolaeth ar draws y portffolio. Fel rhan o'r gwaith hwn, crëwyd set gychwynnol arfaethedig o ddangosyddion craidd^{Troednodyn2}, gan dynnu ar themâu cyffredin a meysydd sy'n gorgyffwrdd a nodwyd ar draws prosiectau. Yn benodol, cafodd y meysydd cyffredin hyn eu grwpio'n gyfres o 'deuluoedd o ddangosyddion' cyffredinol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol yn eang ar draws y rhan fwyaf o brosiectau o fewn y portffolio. Mae pob teulu o ddangosyddion hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol. Mewn rhai achosion, mae'n debygol y bydd y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gymaradwy ar y cyfan

Troednodyn

² Roedd datblygiad y rhestr hon o ddangosyddion craidd hefyd yn cynnwys adolygiad o'r [Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, Gofynion Data a Thystiolaeth](#), a ddarparwyd inni yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

ar draws prosiectau, ac felly gallent gyfrannu at sylfaen dystiolaeth lefel portffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant fwy cyson. Mewn achosion eraill, lle mae dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy yn llai ymarferol oherwydd gwahaniaethau yn nodau, math a maint y prosiect, mae rhestr ddarluniadol o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect wedi ei chynnwys fel enghreifftiau o fesurau y gallai prosiectau unigol eu haddasu o fewn eu fframweithiau monitro eu hunain.

Mae'r fframwaith sy'n deillio o hyn yn ceisio darparu cyfres ymarferol a chymesur o ddangosyddion a rennir, a all gynorthwyo gwerthusiadau yn y dyfodol ar lefel portffolio ehangach Grantiau Cyfalaf Diwylliant a'r gallu i gymharu ar draws prosiectau, gan barhau i ganiatáu digon o hyblygrwydd er mwyn i brosiectau fabwysiadu dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi eu teilwra'n fwy sy'n cyd-fynd â'u hamcanion, eu maint, a'u gweithgareddau penodol. Darperir rhagor o fanylion, gan gynnwys y rhestr lawn o ddangosyddion arfaethedig, yn Atodiad B.

3. Model rhesymeg

3.1 Cyflwyniad i'r model rhesymeg

Mae model rhesymeg yn ffordd strwythuredig o ddisgrifio sut y disgwylir i ymyriad greu newid. Nod y dull hwn yw darparu fframwaith damcaniaethol clir—gan gynnwys cydrannau gweledol a naratif—sy'n cysylltu adnoddau, gweithgareddau a chanlyniadau, gan ddangos y llwybr achosol y disgwylir i fewnbynnau gynhyrchu buddion ac effeithiau hirdymor drwyddo.

Yn ei hanfod, mae model rhesymeg yn nodi'r gadwyn o achos ac effaith o fewnbynnau i effeithiau. Mae'n dechrau gyda'r adnoddau a fuddsoddwyd (mewnbynnau), sy'n galluogi camau gweithredu penodol (gweithgareddau) i gael eu cyflawni. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynhyrchu canlyniadau uniongyrchol a gweladwy (allbynnau), sydd yn eu tro yn cyfrannu at newidiadau mewn ymddygiadau, perfformiad neu amodau (canlyniadau). Dros amser, mae'r canlyniadau hyn yn arwain at effeithiau ehangach a mwy parhaol.

Defnyddir modelau rhesymeg yn helaeth mewn gwerthusiadau oherwydd eu bod yn helpu i egluro sut y bwriedir i raglenni weithio, a sut olwg sydd ar lwyddiant ar wahanol gamau. Maent yn cefnogi monitro cyson, yn darparu fframwaith a rennir ar gyfer asesu cynnydd, ac yn ei gwneud hi'n haws deall sut y mae prosiectau unigol yn cyfrannu at amcanion polisi ehangach.


Yn y gwerthusiad hwn, mae'r model rhesymeg yn gwasanaethu fel y fframwaith damcaniaethol cyffredinol ar gyfer deall sut y mae'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn trosi buddsoddiad yn ganlyniadau. Mae'n dwyn ynghyd yr amrywiol brosiectau a rhaglenni o fewn y portffolio yn un strwythur, gan alluogi asesiad penodol i brosiectau a'r gallu i gymharu ar draws Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Mae'r model hefyd yn gwasanaethu fel fframwaith cyfeirio ymarferol ar gyfer prosiectau a ariennir yn y dyfodol. Drwy nodi ystod strwythuredig o allbynnau, canlyniadau ac effeithiau, mae'n darparu cyfres o feysydd newid posibl y gall deiliaid grantiau eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio prosiectau, monitro a chynllunio gwerthuso.

3.2 Strwythur a chynnwys y model rhesymeg

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r model rhesymeg ar gyfer portffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Mae'r model wedi ei drefnu'n bum cydran: mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r model rhesymeg llawn, tra bod Ffigurau 2 a 3 yn ehangu ar yr allbynnau a'r canlyniadau trwy gyflwyno dangosyddion enghreifftiol ar gyfer pob maes a nodwyd.

Ffigur 1: Model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant



Ffigur 2: Dadansoddiad o'r allbynnau

Allbynnau

Gwelliannau cyfalaf

- Datblygu seilwaith ffisegol – e.e. metrau sgwâr o ofod sydd wedi ei adnewyddu neu ei ddatblygu yn ddiweddar, nifer y cyfleusterau newydd a grëwyd
- Gwelliannau amgylcheddol a thechnegol – e.e. ardystiad amgylcheddol wedi ei gyflawni (e.e. sgôr BREEAM), gosod systemau gwresogi neu ynni carbon isel, gosod systemau rheoli amgylcheddol
- Casgliadau a diogelu asedau – e.e. metrau sgwâr o storfeydd casgliadau a gafodd eu creu neu eu gwella; nifer y systemau diogelwch a gafodd eu gosod neu eu gwella
- **Cyflenwi gwasanaethau yn well**
- Maint a darpariaeth gwasanaethau – e.e. nifer yr arddangosfeydd a gyflwynir, nifer y cynrychiadau theatr a lwyfennir, nifer y digwyddiadau neu weithdai a raglennir, nifer y casgliadau hygyrch newydd, nifer yr eitemau diwylliannol newydd sy'n cael eu comisiynu neu eu creu
- Safonau gwasanaeth a chydymffurfedd ag achredu – e.e. cyflawni neu wella safonau achredu amgueddfeydd, cyflawni neu wella safonau achredu gwasanaeth archifau, sawl un o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gyflawnwyd
- Darpariaeth o wasanaethau digidol – e.e. nifer y digwyddiadau neu weithdai rhithwir a ddarparwyd, nifer yr adnoddau ar-lein a lansiwyd, nifer yr asedau diwylliannol digidol a wnaed ar gael ar-lein
- Hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau – e.e. nifer y digwyddiadau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd â blaenoriaeth (e.e. cynulleidfaoedd anghenion addysgol arbennig, niwrowahanol), nifer y perfformiadau hygyrch (e.e. â chapsiynau, laith Arwyddion Prydain)

Capasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr

- Cyflogaeth â chymorth – e.e. nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir yn uniongyrchol, nifer y swyddi tymor penodol, neu swyddi prosiect a grëwyd
- Cyfleoedd gwirfoddoli â chymorth – e.e. nifer y rolau gwirfoddoli a grëwyd neu a gynhaliwyd, cyfanswm yr oriau gwirfoddoli a gofnodwyd
- Datblygu'r gweithlu a gwella seilwaith gweithio – e.e. nifer y cyfleusterau staff a gafodd eu gwella (e.e. swyddfeydd, ardaloedd llesiant), nifer y staff sy'n cael cyfleoedd hyfforddiant neu gyfleoedd uwchsgilio

Cymorth i randdeiliaid y sector a chymunedau ymarfer

- Cymorth i gynhyrchwyr / ymarferwyr diwylliannol a chreadigol – e.e. nifer yr artistiaid neu ymarferwyr diwylliannol sy'n cael cyfleoedd hyfforddi neu gyfleoedd i ddatblygu, nifer y cwmnïau preswyl a gynhelir, nifer y gweithwyr llawrydd sy'n ymgysylltu
- Cymorth i sefydliadau partner diwylliannol a chymunedol – e.e. nifer y cytundebau partneriaeth a sefydlwyd, nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnwyd

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

- Darpariaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg – e.e. nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau neu ddigwyddiadau yn y Gymraeg a gynhaliwyd, nifer yr asedau diwylliannol digidol yn y Gymraeg sydd ar gael ar-lein
- Cynrychiolaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru – e.e. nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau neu ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar hanes, diwylliant neu dreftadaeth Cymru, nifer yr arddangosfeydd, cynrychiadau neu raglenni sy'n cynnwys artistiaid neu ymarferwyr diwylliannol Cymru
- Cyflenwi gwasanaethau dwyieithog ac arfer sefydliadol – e.e. cyfran y deunyddiau ar gyfer y cyhoedd sydd ar gael yn ddwyieithog, nifer y swyddi a ddynodwyd yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol

Ffigur 3: Dadansoddiad o'r canlyniadau

Canlyniadau

Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd

- Nifer yr ymwelwyr – e.e. cyfanswm yr ymwelwyr, cyfraddau'r ymweliadau rheolaidd, nifer yr ymwelwyr tro cyntaf, hyrwyddo proffil ymwelwyr mwy amrywiol
- Aelodaeth a theyrngarwch – e.e. niferoedd aelodaeth, cyfraddau'r rheini sy'n adnewyddu aelodaeth, nifer aelodau'r cynllun cefnogwyr neu gynllun noddwyr
- Cyfranogiad mewn digwyddiadau a gweithdai – e.e. nifer yr unigolion sy'n bresennol mewn digwyddiadau, nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithdai, twf ym mhresenoldeb mewn digwyddiadau / gweithdai
- Ymgysylltu addysgol – e.e. nifer yr ymweliadau ag ysgolion, nifer y disgyblion sy'n mynd i sesiynau addysgol wedi eu trefnu
- Ymgysylltu digidol â chasgliadau a gwasanaethau – e.e. sawl gwaith y gwelir y casgliadau digidol, sawl gwaith y caiff adnoddau digidol eu lawrlwytho, nifer yr unigolion sy'n mynd i ddigwyddiadau rhithwir
- Profiad a boddhad ymwelwyr – e.e. sgoriau boddhad ymwelwyr, sgoriau arolwg profiad defnyddwyr

Perfformiad ariannol y sefydliad

- Perfformiad incwm a enillir – e.e. refeniw gwerthu tocynnau, refeniw manwerthu, incwm hurio lleoliadau, incwm aelodaeth
- Effeithlonrwydd cost ac arbedion – e.e. gostyngiadau mewn gwariant ynni, gostyngiadau mewn costau cynnal a chadw adeiladau neu asedau
- Amrywio incwm – e.e. cyfran yr incwm a enillir yn erbyn cyllid grant, nifer y ffrydiau incwm, incwm partneriaeth fasnachol

Cyfraniad economaidd lleol

- Gwariant ymwelwyr a gweithgarwch economaidd – e.e. gwariant amcangyfrifedig ymwelwyr yn yr ardal leol, amser aros cyfartalog ymwelwyr, nifer yr arosiadau dros nos sy'n gysylltiedig ag ymweliadau
- Cyfraniad cyflogaeth – e.e. nifer y swyddi a gefnogir yn anuniongyrchol, a gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol

Cydluniant cymdeithasol a chysylltu â'r gymuned

- Cyfranogiad a chynhwysiant cymunedol – e.e. cyfranogiad gan grwpiau â blaenoriaeth neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyfranogiad gan bobl ifanc, cyfranogiad o gymunedau sy'n amrywiol yn ddaearyddol
- Cysylltedd cymunedol a phrofiad a rennir – e.e. ymdeimlad o berthyn yr adroddwyd amdano, cyfleoedd yr adroddwyd amdanynt ar gyfer rhyngweithio o fewn y gymuned leol
- Hunaniaeth leol a balchder dinesig – e.e. balchder yr adroddir amdano mewn sefydliadau diwylliannol lleol, canfyddiad o'r lleoliad fel ased cymunedol, cydnabyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth leol mewn rhaglenni, proses creu lleoedd well
- Enw da a gwelededd lle – e.e. nifer y nodweddion cyfryngau mewn allfeydd rhanbarthol neu genedlaethol; sawl gwaith y caiff ei restru ar blatfformau twristiaeth ddiwylliannol neu ganllawiau cyrchfannau; nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol

Gwell stiwardiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth

- Cadwraeth casgliadau a gofalu amdanynt – e.e. sgoriau asesu cyflwr casgliadau, cyfran y casgliadau a storiwyd mewn amodau cydymffurfiol
- Defnydd cynaliadwy o adeiladau treftadaeth a gofalu amdanynt – e.e. sgorio cyflwr adeiladau hanesyddol / rhestredig, adeiladau wedi eu tynnu oddi ar gofrestrau 'mewn perygl', mwy o ddefnydd o fannau treftadaeth a oedd yn cael eu tanddefnyddio o'r blaen

Perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol

- Perfformiad carbon – e.e. allyriadau o garbon sefydliadol, allyriadau o garbon fesul ymwelydd
- Effeithlonrwydd ynni – e.e. defnydd ynni fesul metr sgwâr, cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy
- Effeithlonrwydd adnoddau – e.e. defnydd dŵr, gwastraff a gynhyrchir, a chyfran a ailgylchir

Buddion o ran llesiant

- Llesiant meddyliol ac emosiynol, e.e. sgoriau llesiant hunan-adroddedig, lefelau hunan-adroddedig o fwynhad a boddhad
- Llesiant cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn – e.e. cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yr hunan-adroddwyd amdanynt, gostyngiad yn lefelau unigrwydd yr hunan-adroddwyd amdano, ymdeimlad o berthyn yr hunan-adroddwyd amdano

3.2.1 Mewnbynnau

Mae'r adran mewnbynnau yn crynhoi'r adnoddau ariannol a ddyrannwyd i'r tri phrosiect mawr a'r ddwy raglen o fewn cwmipas yr asesiad yn ystod tymor Llywodraeth Cymru 2021/2022 i 2025/2026. Lle bo'n berthnasol, mae'r model yn adrodd ar gyfanswm cyllid y prosiect a'r gyfran a ddarperir yn benodol gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chyfraniadau gan bartneriaid ariannu eraill. Cyflwynir cyfanswm y cyllid gan nad yw'n ymarferol ynysu pa weithgareddau, allbynnau neu ganlyniadau dilynol penodol y gellir eu priodoli'n llwyr i ffynonellau cyllido unigol. Felly, mae'r model yn adlewyrchu maint llawn y buddsoddiad, gan alluogi cyflawniad ar draws y portffolio.

3.2.2 Gweithgareddau

Mae'r adran gweithgareddau yn amlinellu'r meysydd cyflawni craidd a gynorthwyr gan gyllid Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Gan fod y model rhesymeg yn cwmpasu tri phrosiect mawr a dwy raglen, cyflwynir gweithgareddau ar lefel uchel, ac maent yn canolbwyntio ar y prif feysydd ymyrryd yn hytrach na chamau gweithredu manwl. Mae'r lefel ddisgrifio hon yn gymesur â chwmipas y model ar draws y portffolio, ac yn sicrhau trosolwg cyson o'r ffordd y mae prosiectau a ariennir yn trosi buddsoddiad yn gyflawniad.

3.2.3 Allbynnau

Mae allbynnau'n disgrifio'r canlyniadau uniongyrchol a gweladwy a gynhyrchir trwy weithgareddau a ariennir. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb ar draws portffolio amrywiol o brosiectau, mae allbynnau wedi eu strwythuro i feysydd thematig eang. Ym mhob maes, nodir a darlunnir dimensiynau mwy penodol o gyflawni trwy ddangosyddion enghreifftiol. Mae'r strwythur haenog hwn yn galluogi cydbwysedd rhwng y gallu i gymharu a hyblygrwydd: mae'n darparu fframwaith cyson ar gyfer casglu canlyniadau ar draws y portffolio gan ganiatáu i brosiectau unigol ddewis dangosyddion sydd fwyaf perthnasol i'w cwmipas.

Mae'r pum maes allbynnau eang fel a ganlyn:

- **Gwelliannau cyfalaf:** mae'r maes hwn yn dangos y gwelliannau ffisegol a thechnegol a alluogir trwy fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n cynnwys datblygu seilwaith a chyfleusterau, gwelliannau amgylcheddol a thechnegol, a mesurau i ddiogelu casgliadau ac asedau diwylliannol.
- **Cyflenwi gwasanaethau yn well:** mae'r maes hwn yn adlewyrchu gwelliannau o ran maint, ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau diwylliannol. Mae'n cynnwys twf mewn rhaglennu a darpariaeth, cydymffurfio â safonau'r sector ac achredu, ehangu gwasanaethau digidol, a dylunio gwasanaethau cynhwysol.
- **Capasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr:** mae'r maes hwn yn dangos yr adnoddau dynol a gynhelir trwy fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n cynnwys cyflogaeth â chymorth, cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu creu neu eu cynnal, a gwelliannau i ddatblygu'r gweithlu ac amgylcheddau gwaith.
- **Cymorth i randdeiliaid y sector a chymunedau ymarfer:** mae'r maes hwn yn adlewyrchu cyfraniadau at yr ecosystem ddiwylliannol ehangach. Mae'n cynnwys

cymorth i ymarferwyr a chynhyrchwyr diwylliannol, yn ogystal â chydweithio â sefydliadau diwylliannol, cymunedol a phartneriaid eraill.

- **Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru:** mae'r maes hwn yn dangos sut y mae gweithgaredd a ariennir yn cynorthwyo darpariaeth Gymraeg, ac yn cryfhau gwelededd a chynrychiolaeth diwylliant a threftadaeth Cymru drwy raglenni, cynnwys ac ymarfer sefydliadol.

Er y disgwylir i rai meysydd allbwn, yn enwedig gwelliannau cyfalaf, fod yn berthnasol ar draws pob prosiect a ariennir, mae eraill yn berthnasol yn fwy dethol, yn dibynnu ar gwmpas ac amcanion y prosiect. Felly, mae'r model yn mabwysiadu strwythur modiwlaid: nid yw'n ceisio catalogio pob allbwn posibl, ond yn hytrach mae'n diffinio set o feysydd cyffredin y disgwylir i'r mwyafrif o'r allbynnau lefel prosiect gael eu cwmpasu ganddynt.

3.2.4 Canlyniadau

Mae canlyniadau yn disgrifio'r newidiadau a'r effeithiau sy'n deillio o'r allbynnau a gyflawnwyd. Maent wedi eu strwythuro gan ddefnyddio'r un dull â'r adran allbynnau: meysydd thematig eang, wedi eu cefnogi gan ddimensiynau mwy penodol a dangosyddion darluniadol.

Mae prif feysydd y canlyniadau fel a ganlyn:

- **Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd:** mae'r maes hwn yn dangos twf mewn cyfranogiad a rhyngweithio â gwasanaethau diwylliannol. Mae'n cynnwys twf yn nifer yr ymwelwyr ac aelodaeth, cyfranogiad mewn digwyddiadau a gweithgarwch addysgol, ymgysylltu digidol â chasgliadau a gwasanaethau, ac ansawdd profiad ymwelwyr.
- **Perfformiad ariannol y sefydliad:** mae'r maes hwn yn adlewyrchu perfformiad ariannol a chynaliadwyedd y sefydliadau a ariennir. Mae'n cynnwys incwm a enillir o weithgareddau diwylliannol a masnachol, enillion effeithlonrwydd o gostau gweithredu is, ac arallgyfeirio ffrydiau incwm y tu hwnt i arian cyhoeddus.
- **Cyfraniad economaidd lleol:** mae'r maes hwn yn dangos yr effeithiau economaidd ehangach a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol. Mae'n cynnwys gwariant ymwelwyr a gweithgarwch economaidd cysylltiedig mewn ardaloedd lleol, yn ogystal â chyfraniadau anuniongyrchol i gyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi.
- **Cydluniant cymdeithasol a chysylltu â'r gymuned:** mae'r maes hwn yn adlewyrchu gwerth cymdeithasol buddsoddiad diwylliannol. Mae'n cynnwys cyfranogiad cynhwysol, cyfleoedd ar gyfer profiadau a rennir o fewn cymunedau, hunaniaeth leol a balchder dinesig cryfach, ac enw da a gwelededd lleoedd y tu hwnt i'w hardal leol.
- **Gwell stiwardiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth:** mae'r maes hwn yn dangos cyflwr adnoddau diwylliannol a pha mor gyfrifol y cânt eu rheoli. Mae'n cynnwys gwell gofal a chadwraeth casgliadau, a chynnal a chadw a defnyddio adeiladau hanesyddol a threftadaeth mewn modd cynaliadwy.
- **Perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol:** mae'r maes hwn yn adlewyrchu perfformiad amgylcheddol y sefydliadau a'r cyfleusterau a ariennir. Mae'n cynnwys perfformiad carbon, effeithlonrwydd ynni, ac effeithlonrwydd adnoddau ehangach mewn gweithrediadau.

- **Buddion o ran llesiant:** mae'r maes hwn yn dangos yr effeithiau llesiant personol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyfranogiad diwylliannol. Mae'n cynnwys llesiant meddyliol ac emosiynol, yn ogystal â llesiant cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn.

O'i gymharu ag allbynnau, mae canlyniadau yn fwy cymaradwy ar draws prosiectau yn gyffredinol, gan eu bod yn adlewyrchu meysydd cyffredin o newid sy'n deillio o fuddsoddiad cyfalaf diwylliannol. Fodd bynnag, ni fydd pob maes canlyniad yn berthnasol i bob prosiect, a bydd eu cymhwysedd yn dibynnu ar yr hyn y mae'r ymyriad yn canolbwyntio arno, a'r math o sefydliad neu leoliad diwylliannol dan sylw (e.e. amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau).

3.2.5 Effeithiau

Mae effeithiau yn cynrychioli'r effeithiau cymdeithasol hirdymor ac ehangach a all ddeillio o fuddsoddiad y Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Er bod allbynnau a chanlyniadau yn dangos newidiadau mwy uniongyrchol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a ariennir, a gwelliannau i seilwaith diwylliannol, mae'r effeithiau yn ymwneud â chyfraniad strategol ehangach y buddsoddiadau hyn i gyfranogiad diwylliannol, datblygu cymunedol, a blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

Mae'r effeithiau sydd wedi eu cynnwys yn y model rhesymeg yn tynnu ar ddogfennaeth^{Troednodyn3} rhaglen ddrafft a baratowyd o fewn Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i fynegi uchelgeisiau strategol dull portffolio o fuddsoddiad cyfalaf diwylliannol. Er na chafodd y fframwaith rheoli rhaglenni hwn ei weithredu'n ffurfiol, mae'r ddogfennaeth ddrafft yn darparu mynegiant defnyddiol o'r buddion hirdymor bwriadedig sy'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, ac felly mae wedi llywio haen effaith y model rhesymeg.

Yn y cyd-destun hwn, mae buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yn anelu at gyfrannu at nifer o effeithiau hirdymor, gan gynnwys y canlynol:

- gwella mynediad at ddiwylliant a chyfranogiad ynddo i bobl ledled Cymru;
- sicrhau bod ein hasedau diwylliannol yn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru yn well;
- cefnogi cyflawniad y nodau a'r camau gweithredu ar gyfer diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru;
- dod â diwylliant yn agosach at adref;
- democrateiddio diwylliant;
- gwella cysylltedd â diwylliant;
- hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol ymhlith pobl;
- ategu'r ymdrechion i gyflawni cynllun sero net Cymru gyfan a strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru;
- adfywio asedau cymunedol lleol, darparu cyflogaeth a datblygu sgiliau a chyfleoedd eraill;

Troednodyn

³ Wedi ei rannu'n uniongyrchol gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru

- hyrwyddo a datblygu'r economi ymwelwyr, ac enw da a phroffil ein diwylliant a'n treftadaeth yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Gyda'i gilydd, mae'r effeithiau hyn yn cynrychioli'r uchelgeisiau strategol ehangach sy'n gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yng Nghymru. Er bod prosiectau unigol yn cyfrannu at yr effeithiau hyn i wahanol raddau, maent yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer deall y gwerth cyhoeddus hirdymor y mae grantiau cyfalaf diwylliant yn ceisio ei gynhyrchu.

4. Canfyddiadau

4.1. Cynnydd wrth weithredu'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant hyd yn hyn. Cyn asesu'r allbynnau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn eu cyfanrwydd, mae'n bwysig deall cyd-destun gweithredu'r prosiectau unigol ynddo yn gyntaf. O ystyried natur, maint ac amserlenni amrywiol y buddsoddiadau, mae pob un o brosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant mewn gwahanol gyfnodau o ran cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Felly, mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r tri phrosiect mawr a'r ddwy raglen o fewn cwmplas y gwerthusiad, eu nodau unigol, yr amserlenni arfaethedig, a'u sefyllfa o ran cynnydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn helpu i roi mewn cyd-destun lle y mae allbynnau a chanlyniadau eisoes yn datblygu ar draws prosiectau, a lle nad ydynt efallai yn weladwy eto ar hyn o bryd.

At ei gilydd, mae'r adolygiad o'r ddogfennaeth yn dangos bod y broses o weithredu portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant naill ai'n dal i fynd rhagddi, neu dim ond yn ddiweddar wedi ei chwblhau. Ymhlith y tri phrosiect cyfalaf mawr, disgwylir i Amgueddfa Bêl-droed Cymru agor yn 2026, tra bod gwaith cyfalaf sylweddol yn Theatr Clwyd a CELF eisoes wedi ei gwblhau, er mai yn ddiweddar y gwnaed hynny. O ganlyniad, mae'n dal i fod yn rhy gynnar i asesu llawer o'r gweithgareddau gweithredol tymor hwy sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn. Ar ben hynny, mae'r broses o weithredu'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid yn mynd rhagddi, gydag 11 o'r 31 o grantiau ar hyn o bryd yn meddu ar adroddiadau diwedd prosiect. Mewn cyferbyniad, mae adroddiadau diwedd prosiect ar gael ar gyfer pob un o'r chwe phrosiect Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau sydd o fewn cwmplas y gwerthusiad hwn.

Tynnodd yr adolygiad dogfennau sylw hefyd at rai heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r grantiau hyn, sy'n cynnwys y canlynol:

- problemau annisgwyl neu waith ychwanegol sy'n ofynnol wrth wneud gwaith cyfalaf, gan arwain at fwy o waith neu gostau cynyddol. Mae hyn yn cynnwys darganfyddiadau annisgwyl ar safleoedd (megis darganfod asbestos), fel yn achos Theatr Clwyd.
- gwaith darganfod annigonol yn y camau cyn-dendro, gan arwain at oedi wrth wneud gwaith cyfalaf, fel yn achos Amgueddfa Bêl-droed Cymru.
- newid mewn contractwyr a dulliau caffael yn ystod gweithredu gwaith cyfalaf, fel a welwyd yn achos y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau.
- amserlenni tynn rhwng dyfarnu cyllid a chwblhau prosiectau, yn enwedig ar gyfer prosiectau llai a ariennir gan grantiau o fewn y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau.

4.1.1. Theatr Clwyd

Mae Theatr Clwyd yn ganolfan gelfyddydau fawr yn Sir y Fflint, yn y Gogledd-ddwyrain, a'r theatr gynhyrchu fwyaf yng Nghymru. Mae'n gwasanaethu fel canolfan sy'n datblygu talent a diwylliant yng Nghymru o ran awduron theatr, actorion a chyfarwyddwyr, ac mae'n denu

dros [200,000 o ymwelwyr sy'n talu bob blwyddyn](#), gan hyrwyddo diwylliant Cymru i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol drwy gynhyrchu dramâu Cymraeg, dangos ffilmiau Cymraeg a chynnwys darpariaeth ddwyieithog yn ei rhaglenni theatr addysgol a ieuenctid.

Er gwaethaf pa mor bwysig ydyw i'r sector diwylliannol yng Nghymru, mae'r theatr wedi cael buddsoddiad cyfalaf cyfyngedig dros ei 45 mlynedd o weithredu. Dros amser, arweiniodd hyn at ddirywiad yng nghyflwr yr adeilad, gan godi pryderon o ran diogelwch a chynyddu'r tebygolrwydd y byddai angen cau rhannau o'r theatr. Felly, mae'r theatr wedi cael buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar, gyda thros £25 miliwn o gyllid ers 2020/2021, fel rhan o ymrwymadau [Rhaglen Lywodraethu \(2021 i 2026\)](#) Llywodraeth Cymru. Dechreuodd gwaith cyfalaf ar y safle ym mis Ionawr 2023, gyda'r amcanion cyffredinol canlynol:

- cyflwyno dros 10,000m² o gyfleusterau theatr a chymunedol o'r radd flaenaf erbyn diwedd 2024.
- cynyddu'n gynaliadwy nifer y rheini sy'n defnyddio'r adeilad i 370,000 erbyn 2027 (tair blynedd ar ôl ailagor).
- cyflawni sgôr 'da iawn' o ran Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM), o leiaf, ar gyfer yr adeilad, a lleihau allyriadau carbon o leiaf 60%.

Ar yr adeg y cynhaliwyd y gwerthusiad hwn, roedd gwaith cyfalaf yn Theatr Clwyd wedi ei gwblhau'n llwyddiannus, ac [ailagorodd y theatr yn 2025](#) mewn sawl cam, er gydag oedi o ryw flwyddyn, o'i gymharu â'r amserlenni gwreiddiol. Gellir priodoli'r oedi hwn i [sawl her](#) a wynebwyd wrth gyflawni gwaith cyfalaf, sy'n cynnwys darganfyddiadau annisgwyl ar y safle (megis darganfod asbestos), problemau cyflenwi, a heriau eraill yn gysylltiedig ag adeiladu, yn ogystal â phroblemau gyda chostau cynyddol dros amser. Mae'r prosiect hefyd wedi nodi risgiau parhaus, gan gynnwys costau ynni cynyddol, a allai roi pwysau ar gyllidebau refeniw yn y dyfodol.

Er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth ac ymdrin â'r fath heriau, datblygodd Theatr Clwyd gofrestr risg fanwl gyda strategaethau lliniaru cysylltiedig yn ystod y broses o weithredu ei phrosiect. Ar wahân i heriau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth cyfalaf, roedd y gofrestr hon hefyd yn dangos ystod ehangach o risgiau, megis risgiau canfyddiad y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag ailagor Theatr Clwyd yn raddol. Er enghraifft, nodwyd y gallai absenoldeb un foment lansio leihau'r effaith y mae Theatr Clwyd yn ei chael ar y cychwyn. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy weithgarwch marchnata pwrpasol, fel fideos a phostiadau blog, i gyfleu taith y prosiect a chynyddu ymgysylltu'r gynulleidfa dros amser. Ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r heriau hyn, gwnaed ymdrechion hefyd i reoli effeithiau amgylcheddol y gwaith adeiladu, gyda'r prosiect yn gweithredu cynllun rheoli gwastraff yn ystod y cam adeiladu.

O ystyried y ffaith yr ailagorwyd y theatr yn ddiweddar (llai na blwyddyn cyn amser y gwerthusiad hwn) mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael ar hyn o bryd i asesu effeithiau datblygol, gydag unrhyw effeithiau cychwynnol yn ymddangos ar hyd ei hagoriad graddol. Felly, dylid ystyried y drafodaeth am effeithiau a gyflwynir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y cam cynnar hwn o'r broses weithredu. Mae adolygiad Porth 4 eisoes wedi ei gwblhau, ac mae adolygiad a gwerthusiad llawn Porth 5 i'w gynnal tua 12 mis ar ôl ailagor y theatr yn llawn, yn unol â'r arferion safonol.

4.1.2. Amgueddfa Bêl-droed Cymru

Mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn amgueddfa newydd sy'n cael ei datblygu ochr yn ochr ag Amgueddfa Wrecsam, sy'n olrhain hanes dinas Wrecsam, ac yn yr un adeilad â hi. Nod yr amgueddfa newydd hon yw tynnu sylw at rôl ganolog Wrecsam fel cartref hanesyddol pêl-droed Cymru. Mae amcanion cyffredinol y prosiect erbyn 2033, fel y'u dyfynnwyd yn ei achos busnes llawn, fel a ganlyn:

- rydym yn dehongli gorffennol a phresennol ein cymunedau ar gyfer pob cenhedlaeth bresennol, a chenedlaethau'r dyfodol.
- mae ein horielau, casgliadau a phresenoldeb digidol yn denu 200,000 o ymweliadau bob blwyddyn.
- ni yw llais pêl-droed Cymru yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.
- rydym yn croesawu 15,000 o ddysgwyr bob blwyddyn.
- mae ein gweithgareddau poblogaidd a bywiog wedi eu costio a'u hariannu ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- rydym yn cynnig croeso o'r radd flaenaf i bob defnyddiwr ac ymwelydd, gan roi ein cymuned wrth wraidd popeth a wnawn.

Nod yr amgueddfa bêl-droed yw cyflawni'r nodau hyn drwy waith cyfalaf mawr, gan gynnwys trawsnewid gofod ffisegol presennol Amgueddfa Wrecsam. Ei nod yw darparu dros 2,200m³ o faint profiadol o orielau newydd, gan gynnwys cyfres newydd o orielau pêl-droed parhaol, cyfres newydd o orielau parhaol i arddangos casgliad hanes y ddinas yn Amgueddfa Wrecsam, a chreu ystafell ddysgu yn yr amgueddfa, ymhlith sawl darn o waith cyfalaf arall. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu dros £6 miliwn i'r amgueddfa rhwng 2022 a 2026, fel rhan o ymrwymiadau [Rhaglen Lywodraethu \(2021 i 2026\)](#) Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect wedi wynebu rhai heriau yn ystod y broses o'i weithredu a'i gyflawni, megis cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â chynnal gwaith cyfalaf a heriau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn costau oherwydd problemau annisgwyl oherwydd oedran yr adeilad presennol, oedi gyda'r rhaglen ffitio oherwydd newidiadau yn nyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu sylfaenol, yn ogystal ag oedi arall yn gysylltiedig â dewis yr enw arfaethedig ar gyfer y prosiect.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r amgueddfa bellach [i fod i agor yn 2026](#), gyda gwaith cyfalaf sylweddol eisoes wedi ei gwblhau. Er bod yr amgueddfa wedi gweithredu rhai gweithgareddau cyn agor ar ffurf digwyddiadau dros dro a digwyddiad ymweliad rhagolwg gweinidogol ym mis Mawrth 2026, sydd wedi arwain at rai allbynnau a chanlyniadau a grybwyllir yn yr adran ganlynol, nid yw'r amgueddfa ei hun wedi ei hagor i'r cyhoedd eto. Felly, mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael ar hyn o bryd i asesu effeithiau'r prosiect ar adeg y gwerthusiad hwn.

4.1.3. CELF

Mae Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, a elwir hefyd yn CELF, yn ymrwymiad o [Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru \(2021 i 2026\)](#).

Nod y fenter yw gweithredu fel canolfan i artistiaid gweledol cyfoes a chymunedau ledled Cymru, gan gyrraedd cynulleidfaoedd ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'i nod yn bennaf yw cynyddu mynediad at gelf cyfoes a chasgliadau cenedlaethol i fwy o bobl ledled Cymru, yn agosach at ble y maen nhw'n byw ac yn gweithio.

I gyflawni'r nod hwn, mae'r prosiect wedi mabwysiadu model gwasgaredig, sy'n cynnwys partneriaethau ar draws [orielau ledled Cymru](#)^{Troednodyn4}. Nod y prosiect yw cyflawni sawl darn o waith ar draws yr orielau, gan gynnwys cyd-guradu gweithiau, gwaith digideiddio, buddsoddiad cyfalaf a chomisiynu artistiaid.

Mae pob un o'r naw oriel sy'n gysylltiedig â CELF eisoes wedi cael eu buddsoddiadau cyfalaf (tua £8 miliwn rhwng 2021 i 2022 a 2025 i 2026). Mae hyn wedi galluogi gwelliannau hanfodol i seilweithiau sy'n bodoli eisoes, rheolaethau amgylcheddol a diogelwch. Cwblhaodd y prosiect gam olaf ei gyflawniad gweithredol ym mis Mawrth 2025. Ar hyn o bryd, nod y prosiect yw sefydlu cynllun pontio clir a fframwaith ôl-brosiect.

Er bod y gwaith wedi ei gwblhau, mae'r prosiect wedi parhau i symud o gyflenwi cyfalaf i weithredu tymor hwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyfraniad at gostau gweithredol CELF ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025 i 2026 a 2026 i 2027, gan ganiatáu mwy o amser i'r prosiect datblygu cynllun ariannu a sicrhau cyllid o amrywiaeth o ffynonellau. Yn ogystal, ariannodd Llywodraeth Cymru gyfnod pontio rhwng mis Mawrth a mis Medi 2025 i gwblhau gwaith ategol sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad cyfalaf, gan gynnwys cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio.

Mae rhai meysydd parhaus i'w datblygu yn mynd rhagddynt. Mae'r rhain yn cynnwys capasiti cyfyngedig i rai orielau ehangu rhaglenni a chasglu / dehongli data ymwelwyr yn ystyrlon, yn ogystal ag awydd i farchnata CELF mewn ffordd fwy gweladwy ar y lefel genedlaethol, ochr yn ochr â brandio mwy gweladwy a strategaeth gyfathrebu CELF unedig.

4.1.4. Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid

Mae'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid yn cynnig cyllid trwy broses ymgeisio am grantiau cystadleuol ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ledled Cymru. Eu nod yw eu cefnogi i foderneiddio eu cyfleusterau, creu modelau darparu cynaliadwy a galluogi cydweithio rhwng gwasanaethau, ac mae cyfres o ddyfarniadau grant wedi eu gwneud i gynorthwyo gwasanaethau lleol. Cychwynnodd y rhaglen yn 2010, pan ddarparodd gyllid cyfalaf i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Ers hynny, mae wedi cael ei ehangu o ran cwrdd, gan ddarparu cyllid cyfalaf i amgueddfeydd, orielau, archifau a safleoedd treftadaeth, yn ogystal â gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae hefyd wedi

Troednodyn

⁴ Y naw oriel yn y model gwasgaredig yw Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn Aberystwyth; Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe; Mostyn yn Llandudno; Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd yng Nghasnewydd; Oriel Davies yn y Drennewydd; Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin; Plas Glyn-y-Weddw ym Mhwlheli; Canolfan Grefft Rhuthun yn Rhuthun; a Storiell ym Mangor. Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth hefyd yn chwarae rhan bwysig, ac yn cynnal arddangosfeydd dan faner CELF.

ymestyn ei gyllideb, gan gael dros [£5 miliwn rhwng 2017 a 2022](#). Mae hefyd wedi cael [grantiau ychwanegol](#) o dros £4 miliwn rhwng 2023/2024 a 2026/2027 (o fewn tymor presennol y Senedd).

Mae'r gwerthusiad hwn yn ystyried 31 o grantiau a ddyfarnwyd drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid rhwng 2022 a 2026. Ar adeg y gwerthusiad hwn, mae gan o leiaf 11 o'r grantiau^{Troednodyn5} hyn adroddiadau diwedd prosiect neu adroddiadau prosiect dros dro sydd ar gael ac yn hygyrch^{Troednodyn6}, gan nodi bod y gwaith cyfalaf mawr sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn wedi ei gwblhau ac yn caniatáu nodi rhai allbynnau a chanlyniadau datblygol. Ar gyfer y grantiau sy'n weddill, nid yw adroddiadau o'r fath wedi eu cynhyrchu eto, sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir asesu effeithiau datblygol yn ystyrllon ar hyn o bryd.

4.1.5. Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau

Mae Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau yn cynnwys cyfres o grantiau a ddarperir i amgueddfeydd ac archifau achrededig ledled Cymru nad ydynt wedi eu gwladoli er mwyn cynorthwyo gwelliannau i'w systemau storio a rheoli casgliadau. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais arbennig ar wariant cyfalaf, gan gynnwys gwaith adeiladu a pheirianeg, yn ogystal â gosod offer newydd sy'n gysylltiedig â storio a chadwraeth.

Cyflwynwyd y grantiau yn dilyn argymhellion adolygiad o reoli casgliadau ar gyfer y sector amgueddfeydd lleol ac annibynnol yng Nghymru (2024), a gomisiynwyd gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. Gwnaeth yr adolygiad bum argymhelliad i gyd, a cheisiodd y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau fynd i'r afael â dau ohonynt yn benodol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gwella'r cyfleusterau storio presennol.
- ailwampio storfeydd presennol nad ydynt ar gyfer casgliadau i ddarparu storfeydd ychwanegol ar gyfer casgliadau.

Roedd y cynllun grant hwn yn gynllun 'un-tro' (er bod ei feysydd gwella cymwys wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Grantiau Cyfalaf Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant dilynol). Roedd targed hefyd i'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau gael ei chyflawni o fewn blwyddyn, ac o'r herwydd, aethpwyd ati i weithredu'r grantiau hyn yn gyflym. Mae sawl prosiect wedi cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect neu dros dro. Ar adeg y gwerthusiad hwn, roedd pob un o'r chwe phrosiect o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn wedi cyflwyno adroddiadau diwedd prosiect, gan alluogi nodi allbynnau a chanlyniadau tymor byr datblygol.

⁵ Yn seiliedig ar adroddiadau diwedd prosiect a rannwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl bod gan grantiau ychwanegol adroddiadau diwedd prosiect nad oeddent ar gael i'r tîm gwerthuso ar yr adeg y cynhaliwyd y dadansoddiad hwn.

Troednodyn

⁶ Y rhain yw Amgueddfa'r Wyddgrug, Llyfrgell Betws, Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, Llyfrgell Ystradgynlais, Llyfrgell y Barri, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, amgueddfeydd Treftadaeth MonLife, Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Sir Penfro, Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Llyfrgell Cwmbrân a Llyfrgell Pencoed.

Mae gweithredu'r grantiau hyn hefyd wedi bod yn gysylltiedig â rhai heriau mawr. Ar draws y prosiectau a adolygwyd, mae'r materion cyffredin a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- newidiadau mewn contractwyr a chyflenwyr yn ystod cyflawni gwaith cyfalaf.
- cynnydd neu newidiadau yng nghostau prosiect sy'n deillio o faterion annisgwyl sy'n codi yn ystod y gwaith adeiladu, megis seilwaith gwifrau neu ddraenio nad oeddent wedi eu nodi o'r blaen, yn ogystal â heriau ymarferol eraill sy'n gofyn am ddiwygiadau i'r cynllun neu'r cynlluniau dylunio gwreiddiol.
- amserlenni tynn rhwng cael llythyrau dyfarnu cyllid a chwblhau gweithgareddau'r prosiect fel y bo gofyn.

4.2. Effeithiau datblygol o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant

Mae'r adran hon yn cyflwyno tystiolaeth ar y buddion datblygol a gynhyrchir gan y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, wedi eu strwythuro yn ôl y model rhesymeg o ran yr effeithiau disgwyliedig. Mae prosiectau cyfalaf yn wahanol i brosiectau adnoddau nodweddiadol oherwydd eu gorwel hirdymor a'r buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw y mae ei angen mewn asedau ffisegol. O ganlyniad, mae buddion y prosiectau hyn fel arfer yn cymryd amser i ddod i'r amlwg. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn (Mawrth 2026), mae'r rhan fwyaf o brosiectau Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn dal i fod yng nghanau cynnar eu gweithredu, gyda llawer yn dal i fynd rhagddynt, neu dim ond yn ddiweddar wedi eu cwblhau. Er bod y prosiectau yn nodi'n glir y meysydd budd y maent yn anelu at eu cyflawni dros amser, mae tystiolaeth o effeithiau pendant yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Ar y cam hwn, mae cryfder y dystiolaeth gryfaf yn gyffredinol ar gyfer rhai allbynnau tymor byr, megis gwelliannau cyfalaf ac allbynnau yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau yn well, a drafodir yn fanylach isod. Mae tystiolaeth hefyd o rai canlyniadau datblygol, yn bennaf o brosiectau cyfalaf ar raddfa lai sydd wedi eu cwblhau, ac y mae adroddiadau diwedd prosiect ar gael ar eu cyfer, neu o agoriad Theatr Clwyd yn raddol. Y tu hwnt i allbynnau a chanlyniadau, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd o effeithiau hirdymor y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, oherwydd mae'n disgwyl i'r rhain ddod i'r amlwg dros gyfnod hwy o amser.

Ar ben hynny, ar adeg y gwerthusiad hwn, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd i nodi canlyniadau ychwanegol neu anfwriadol sy'n deillio o bortffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llawer o brosiectau yn parhau i fod yng nghanau cymharol gynnar eu gweithredu, neu o fod yn weithredol, gyda nifer o brosiectau cyfalaf newydd eu cwblhau neu'n dal i fynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall canlyniadau ychwanegol neu anfwriadol ddatblygu dros amser, a dim ond ar ôl i brosiectau ddod yn gwbl weithredol gyda digon o amser i effeithiau ehangach ddod i'r amlwg y gellir nodi eu natur yn aml. Gall enghreifftiau o ganlyniadau ychwanegol posibl gynnwys effeithiau cysylltiedig ehangach ar gyfranogiad diwylliannol lleol. Yn yr un modd, gall rhai prosiectau hefyd wynebu heriau anfwriadol a all ddod i'r amlwg dros amser, megis costau gweithredol cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw cyfleusterau newydd ac estynedig a gynhyrchir gan y buddsoddiadau cyfalaf.

Roedd y dystiolaeth o'r buddion a welwyd yn deillio o ddogfennaeth sydd eisoes yn bodoli yn unig. Gan fod disgwyl i fuddion ddatblygu ac ehangu dros amser, dylid dehongli'r canlyniadau a welir ar y cam hwn fel cipolwg yn hytrach nag effeithiau terfynol prosiectau.

Mae pob allbwn a chanlyniad yn gysylltiedig â nifer o ddangosyddion a fydd yn parhau i gael eu monitro gan brosiectau, gyda'r buddion yn debygol o gynyddu wrth i brosiectau aeddfedu.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai'r allbynnau a'r canlyniadau bwriadedig neu a wireddwyd a nodwyd yn yr adrannau canlynol yw'r rheini a ddangosir yn benodol yn y ddogfennaeth a adolygwyd, neu'r wybodaeth atodol a ddarparwyd gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Lle na thrafodir prosiect o dan faes allbwn neu ganlyniad penodol, ni ddylid dehongli hyn o reidrwydd fel tystiolaeth nad yw'n cyfrannu at y maes hwnnw, neu na fydd yn cyfrannu ato yn y dyfodol. Yn hytrach, efallai ei fod yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd allbwn / canlyniad o'r fath wedi ei gofnodi yn y ddogfennaeth a oedd ar gael i'r tîm gwerthuso.

Mae yna hefyd sawl her a chyfyngiad sy'n gysylltiedig ag asesu effeithiau'r grantiau hyn:

- **Amrywiaeth mewn prosiectau:** mae prosiectau yn amrywio'n fawr o ran maint, cwmpas ac amcanion. Mae rhai yn cael cyllid mewn miliynau o bunnoedd, tra bod eraill yn grantiau lefel is mewn miloedd, gan ei gwneud hi'n anodd cynnal cymariaethau meintiol uniongyrchol ar draws prosiectau.
- **Amrywioldeb yn ansawdd y dystiolaeth:** gall dulliau monitro amrywio ar draws prosiectau, gyda rhai grantiau yn darparu data manwl, ac eraill yn cynnig gwybodaeth gyfyngedig.

Oherwydd yr heriau hyn, disgrifir y canlyniadau yn yr adran hon yn draethiadol yn hytrach nag yn rhifiadol.

At ei gilydd, er bod y dystiolaeth gyfredol yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i allbynnau tymor byr a chanlyniadau cynnar y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, mae'n bwysig dehongli'r canfyddiadau hyn fel rhai rhagarweiniol. Bydd gweithgareddau monitro a gwerthuso parhaus ac arfaethedig yn hanfodol er mwyn achub yn llawn ar fuddion hirdymor y buddsoddiadau hyn.

4.2.1. Canfyddiadau sy'n ymwneud ag allbynnau

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r graddau y mae allbynnau a nodwyd ym model rhesymeg gwerthuso'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi eu gwireddu ar draws pob thema hyd yn hyn, gan ddefnyddio tystiolaeth naratif o'r tri phrosiect mawr a'r ddwy raglen.

4.2.1.1. Gwelliannau cyfalaf

Mae gwelliannau cyfalaf yn cynrychioli allbwn canolog portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Prif ddiben y cyllid yw cynorthwyo'r gwaith o adnewyddu, ehangu a moderneiddio seilwaith diwylliannol ledled Cymru. O ganlyniad, mae pob ymyriad a ariennir gan grant o fewn y cwmpas yn cynnwys rhyw fath o welliant cyfalaf, yn amrywio o ailddatblygu lleoliadau diwylliannol yn sylweddol, i welliannau pwrpasol i ddulliau storio casgliadau, systemau technegol a chyfleusterau.

Er bod rhychwant a maint y gwelliannau yn amrywio rhwng prosiectau, mae buddsoddiad cyfalaf fel arfer yn cynnwys gwaith fel adnewyddu neu ehangu mannau diwylliannol, gwelliannau i gyfleusterau storio ar gyfer casgliadau, gwelliannau i systemau amgylcheddol

a diogelwch, a gosod seilwaith technegol neu ynni newydd. Mae'r gwelliannau hyn yn darparu'r sylfaen ffisegol sy'n galluogi llawer o'r allbynnau eraill a drafodir yn yr adrannau canlynol.

Mae tystiolaeth o ddogfennaeth y prosiect a adolygwyd yn dangos bod gwaith gwella cyfalaf wedi ei gwblhau, neu ar y gweill, ar draws y portffolio. Mewn rhai achosion, dim ond cipolwg rhannol ar allbynnau a wireddwyd y mae'r ddogfennaeth sydd ar gael yn ei roi, yn enwedig pan fo prosiectau wedi symud ymlaen ers yr adroddiad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn. Er enghraifft, mae dogfennaeth sydd ar gael ar gyfer Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn dyddio'n ôl i 2025, er y gallai gwelliannau cyfalaf sylweddol fod wedi eu cyflawni ers hynny.

Ar draws y tri phrosiect mawr, mae gwelliannau cyfalaf yn cynnwys gwaith ailddatblygu ar raddfa fawr a gwelliannau i'r seilwaith. Dyma rai enghreifftiau:

- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn bwriadu darparu 2,217m³ o ofod oriel brofiadol newydd, gan gynnwys 824m² o ofod diwylliannol, manwerthu, dysgu a digwyddiadau wedi ei adnewyddu.
- nod ailddatblygiad Theatr Clwyd yw darparu tua 10,000 m² o gyfleusterau theatr a chymunedol modern. Yn gyffredinol, mae Theatr Clwyd wedi dechrau ail-agor yn raddol ers 2025.
- mae tystiolaeth gan CELF yn dangos bod pob un o'r naw oriel bartner wedi cael buddsoddiad cyfalaf a alluogodd welliannau i'r rheolaethau amgylcheddol, systemau diogelwch a seilwaith ehangach.

Gellir nodi enghreifftiau o welliannau cyfalaf a wireddwyd hefyd ar draws prosiectau a ariennir drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cynnydd o 25% yng nghapasiti storio casgliadau yn Amgueddfa Llangollen.
- cynnydd yng nghapasiti storio gweithiau celf o fewn Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelf Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ehangu'r capasiti o 245 i 545 o weithiau celf.
- adeiladu ac adleoli llyfrgell newydd yng nghanol y dref yn Llyfrgell Gymunedol Arberth, gan gynyddu maint y llyfrgell a chyflwyno cyfleusterau a thechnolegau modern.
- trawsnewid gofod arddangos nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol yn ardal arddangos ddigidol ryngweithiol newydd yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod y Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi llwyddo, i raddau helaeth, i gyflawni ei allbynnau gwella cyfalaf bwriadedig. Fodd bynnag, gan fod sawl prosiect yn parhau i fod yn y cam adeiladu, neu ar gychwyn y cyfnod gweithredol, bydd buddion llawn y buddsoddiadau hyn yn dibynnu ar brosiectau yn cyrraedd eu llawn gapasiti gweithredol.

4.2.1.2. Cyflenwi gwasanaethau yn well

Cyflenwi gwasanaethau yn well yw'r maes allbynnau a dargedir amlaf ar draws y prosiectau cyfalaf a ariennir drwy'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Mae adolygiad o ddogfennaeth y prosiect yn dangos bod pob prosiect a rhaglen grant sydd o fewn cwrdd ar hyn o bryd naill ai'n dangos tystiolaeth o allbynnau wedi eu cyflawni yn y maes hwn, neu'n nodi dangosyddion a thargedau cysylltiedig fel mesurau o lwyddiant y prosiect. Mae hyn yn cyd-fynd â natur buddsoddiad cyfalaf diwylliannol, sydd fel arfer wedi ei anelu at alluogi sefydliadau diwylliannol i gryfhau ac ehangu eu harlwy i gynulleidfaoedd. Mae'n cynnwys graddfa a maint y ddarpariaeth (e.e. darparu mwy o arddangosfeydd, digwyddiadau, neu adnoddau), gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth (e.e. cydymffurfio â safonau'r sector ac achredu), a dimensiynau galluogi pwysig fel hygyrchedd, cynhwysiant a darpariaeth ddigidol ochr yn ochr â gwasanaethau ffisegol.

Ar draws y portffolio, mae'r tri phrosiect cyfalaf mawr a nifer sylweddol o brosiectau a gynorthwyir drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau naill ai eisoes wedi cyflawni allbynnau yn y maes hwn neu wedi eu targedu'n benodol fel mesurau o lwyddiant prosiectau.

Mae pob un o'r tri phrosiect cyfalaf mawr eisoes wedi gwireddu allbynnau sy'n gysylltiedig â gwella'r broses o gyflenwi gwasanaethau. Er enghraifft:

- mae Theatr Clwyd wedi dechrau cynnal arolygon o gynulleidfaoedd ar ôl y sioe. At ei gilydd, mae'r theatr wedi cyflawni Sgôr Gwasanaeth Cwsmeriaid cyfartalog o 9.26 (allan o 10) yn ôl yr hyn a ganfuwyd ym mis Mehefin 2025. Mae achos busnes y prosiect hefyd yn nodi bwriadau clir i gyflawni allbynnau sy'n cyd-fynd â chyflenwi gwasanaethau yn well, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu creadigol a darparu addysg cerddoriaeth.
- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu yn ystod ei chyfnod cyn agor, gan gynnwys rhaglenni cyhoeddus a gyflwynir drwy bresenoldeb amgueddfa dros dro, ac mewn digwyddiadau cenedlaethol, e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol.
- mae rhaglen ddigideiddio CELF wedi arwain at gofnodi dros 24,000 o weithiau, gan ffurfio sylfaen platform digidol Celf ar y Cyd^{Troednodyn7} ac ehangu mynediad digidol at gasgliadau celf gyfoes yn sylweddol.

Mae allbynnau cyflenwi gwasanaethau yn well hefyd yn amlwg ar draws prosiectau a ariennir drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau. Ar draws y ddwy raglen, nodwyd bod 29 o 36 o brosiectau a ariannwyd yn targedu allbynnau yn y maes hwn yn benodol, ac mae saith ohonynt eisoes wedi nodi allbynnau wedi eu cyflawni. Mae enghreifftiau darluniadol yn cynnwys y canlynol:

- cwblhau a chyhoeddi wyth catalog archif newydd yn Archifau Gwent
- lansio Lle Creu newydd yn Llyfrgell y Barri

Troednodyn

⁷ [Hafan | CELF](#) neu ar gyfer gweithiau celf [Chwilio | CELF](#)

- cyflwyno arddangosfa ddigidol ryngweithiol newydd yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, gan ddisodli'r fformat arddangos statig blaenorol.
- buddsoddiad sy'n galluogi dyblu stoc llyfrgell sydd ar fenthg yn Llyfrgell Gymunedol Arberth.

At ei gilydd, mae cyflenwi gwasanaethau yn well yn cynrychioli llwybr canolog lle mae buddsoddiad cyfalaf yn trosi'n ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus well, trwy raglenni estynedig a thrwy wasanaethau wedi eu moderneiddio, sy'n fwy hygyrch, ac sydd wedi eu galluogi'n ddigidol.

4.2.1.3. Capasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr

Mae capasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr yn faes pellach o allbynnau a gynorthwyr drwy gyllid Grantiau Cyfalaf Diwylliant, sy'n adlewyrchu sut y mae buddsoddiad cyfalaf yn galluogi sefydliadau i gryfhau eu hadnoddau dynol a'u gallu gweithredol.

Ymhlith y tri phrosiect cyfalaf mawr, mae dau—Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru—wedi gosod targedau penodol sy'n gysylltiedig â chapasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr. Yn seiliedig ar y ddogfennaeth a adolygwyd, mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru eisoes wedi dechrau cyflawni yn erbyn y targedau hyn yn ystod ei chyfnod cyn agor, gyda phedair swydd gyfwerth ag amser llawn wedi eu llenwi a 234.5 awr wirfoddol wedi eu cofnodi yn 2025.

Ar draws y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau, roedd chwe phrosiect a ariannwyd yn targedu allbynnau yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr yn benodol, gydag allbynnau wedi eu cyflawni wedi eu hadrodd mewn tri achos. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- rôl Swyddog Lle Creu wedi ei throsi'n swydd llawnamser barhaol yn Llyfrgell y Barri.
- hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar ddefnyddio offer digidol, ac ar gynorthwyo pobl ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol yn Llyfrgell Ystradgynlais.
- cynnydd yn nifer y staff curadurol sydd wedi eu hyfforddi i fonitro amgylchedd yr amgueddfa yn Amgueddfa Llangollen.

At ei gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod buddsoddiad cyfalaf yn cyfrannu nid yn unig at welliannau ffisegol, ond hefyd at gryfhau'r gweithlu a'r sylfaen wirfoddolwyr y mae eu hangen i gynnal a gwneud y defnydd mwyaf o gyfleusterau a gwasanaethau wedi eu gwella.

4.2.1.4. Cymorth i randdeiliaid y sector a chymunedau ymarfer

Mae maes pellach o allbynnau yn ymwneud â sut y mae buddsoddiad cyfalaf yn cyfrannu at yr ecosystem ehangach, gan gynnwys cymorth i ymarferwyr diwylliannol a chreadigol, a chydweithio ymhlith sefydliadau diwylliannol a chymunedol.

Ymhlith y prosiectau cyfalaf mawr, mae Theatr Clwyd a CELF yn cynnwys dangosyddion sy'n cyd-fynd â'r maes hwn. Er enghraifft:

- mae Theatr Clwyd wedi gosod targed i 100 o artistiaid a gwneuthurwyr theatr o Gymru bob blwyddyn gael cymorth o ran datblygiad proffesiynol.

- mae CELF wedi nodi prosiectau ac arddangosfeydd cydweithredol ymhlith orielau partner fel maes cyflenwi canolog.

Ar adeg yr adolygiad, ni chawsom dystiolaeth feintiol yn erbyn y dangosyddion penodol hyn, na dangosyddion penodol tebyg, ond rydym wedi cael gwybod bod pob oriel ar draws rhwydwaith CELF wedi cynnal sawl arddangosfa o dan faner CELF. Yn yr un modd, mae adroddiadau naratif ar gyfer CELF yn tynnu sylw at well cydweithredu rhwng sefydliadau cenedlaethol ac orielau rhanbarthol.

Ar draws y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, roedd pedwar prosiect a ariannwyd yn targedu allbynnau yn benodol yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau ymarfer, gyda thri yn dangos tystiolaeth o gynnydd neu gyflawniad. Mae enghreifftiau darluniadol yn cynnwys y canlynol:

- cyfranogiad Llyfrgell y Barri mewn menter gynaliadwyedd dan arweiniad prifysgol, sef Menter Ffilament Ailgylchu Polyethylen Tereffthalad Glycol, dan arweiniad Prifysgol Manceinion.
- model cyflawni partneriaeth dair-ffordd barhaus yn Llyfrgell Gymunedol Arberth, sy'n cynnwys Cyngor Tref Arberth a Chyfeillion Llyfrgell Arberth.
- gweithio mewn partneriaeth yn Llyfrgell Ystradgynlais gydag Accessibility Powys, ochr yn ochr â chynnal cyrsiau hyfforddi i fusnesau, a chymryd rhan yn y fenter Canolfannau Cymunedol Digidol.

Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gall cyllid cyfalaf weithredu fel catalydd ar gyfer cymorth i ymarferwyr, gweithgarwch partneriaeth, a chydweithio traws-sector sy'n ymestyn y tu hwnt i sefydliadau unigol.

4.2.1.5. Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae maes allbynnau arall yn ymwneud â'r graddau y mae buddsoddiad cyfalaf yn cynorthwyo darpariaeth Gymraeg a chynrychiolaeth diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch diwylliannol yn y Gymraeg, rhaglenni sy'n benodol i ddiwylliant, ac arferion cyflenwi gwasanaethau dwyieithog.

Ymhlith y tri phrosiect cyfalaf mawr, Theatr Clwyd yw'r unig brosiect sy'n targedu allbynnau sy'n cyd-fynd â'r maes hwn yn benodol. Mae ei achos busnes yn nodi nifer o ddangosyddion perthnasol, gan gynnwys cymorth o ran datblygiad proffesiynol i 100 o artistiaid a gwneuthurwyr theatr o Gymru bob blwyddyn, sicrhau bod pedwar i chwe chynhyrchiad ar gael yn flynyddol trwy fformatau teithio digidol, a theithio neu gyflwyno un i dri chynhyrchiad mewn mannau eraill yng Nghymru bob 18 mis. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael o allbynnau a wireddwyd yn erbyn y dangosyddion hyn. Yn olaf, mae'r prosiect hefyd yn anelu at gynorthwyo datblygiad geirfa Gymraeg ymhlith plant, gan gynnwys plant dan bump oed, trwy weithgareddau fel sioeau pypedau yn y Gymraeg, sydd wedi eu cynllunio ar gyfer 2026 ac sydd wrthi'n cael eu datblygu.

Ar draws y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, mae pum prosiect a ariennir yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant

Cymru, gyda phedwar yn tystio i allbynnau a wireddwyd yn y ddogfennaeth a adolygwyd. Dyma rai enghreifftiau:

- cynnydd o 19.19% mewn stoc Gymraeg i blant yn dilyn gwaith ailwampio Llyfrgell Betws.
- cyflwyno arddangosfa yn canolbwyntio ar dreftadaeth ddiwydiannol Cymru, gan gynnwys Rhuthr am Lo Cwm Rhondda, mudo, actifiaeth ac etifeddiaeth cloddio am lo, yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda.
- cyflwyno sesiynau dwyieithog a recriwtio staff dwyieithog yn Llyfrgell Gymunedol Arberth.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gall gwelliannau a ariennir gan gyfalaf alluogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau diwylliannol, a chynrychiolaeth gryfach o ddiwylliant a threftadaeth Cymru mewn rhaglenni a chasgliadau.

4.2.2. Canfyddiadau sy'n ymwneud â chanlyniadau'r rhaglen

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r graddau y mae'r canlyniadau a nodwyd ym model rhesymeg gwerthuso'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi eu gwireddu ar draws pob thema hyd yn hyn, gan ddefnyddio tystiolaeth naratif o bob rhan o'r prosiectau.

4.2.2.1. Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd yn un o'r meysydd canlyniadau a dargedir amlaf ar draws y gwahanol brosiectau cyfalaf sydd o fewn cwrdd y gwerthusiad hwn. Mae'r adolygiad o ddogfennau yn dangos bod pedair o'r pum rhaglen grant ar hyn o bryd yn nodi targedau sy'n gysylltiedig â'r maes hwn. At ei gilydd, mae'r pwyslais hwn yn adlewyrchu diben ehangach llawer o'r buddsoddiadau cyfalaf, sy'n ceisio ehangu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu ag asedau diwylliannol. Yn benodol, mae sawl prosiect yn anelu at gynyddu cyfranogiad drwy ehangu'r ddarpariaeth ddiwylliannol, gwella cyfleusterau, a chyflawni'r ystod o allbynnau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Fodd bynnag, o ystyried cam presennol llawer o brosiectau ar adeg y gwerthusiad hwn, lle mae sawl datblygiad cyfalaf yn dal i fynd rhagddo, mae tystiolaeth gyfyngedig o ganlyniadau wedi eu gwireddu yn y maes hwn. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o brosiectau yn adrodd am ganlyniadau bwriadedig sy'n gysylltiedig â mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd, a fyddai'n dod i'r amlwg dros amser unwaith y bydd y datblygiadau cyfalaf wedi eu cwblhau.

Canfuwyd bod pob un o'r tri phrosiect cyfalaf mwy yn targedu canlyniadau wedi eu halinio yn benodol o fewn y maes hwn. Er enghraifft:

- nod Theatr Clwyd yw cynyddu cyfanswm defnyddwyr yr adeilad o 370,000 yn flynyddol erbyn 2027, gan gynnwys cynulleidfaoedd theatr a sinema sy'n talu. Yn ogystal, mae hefyd yn anelu at gyflawni cynnydd o 5% yn ei gynulleidfa o'r drydedd flwyddyn yn dilyn ei hailagor.
- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi gosod targed o 70,000 o ymwelwyr i'r amgueddfa yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl iddi agor, yn ogystal â 15,000 o ymweliadau addysgiadol â'r amgueddfa bob blwyddyn. Yn gysylltiedig ag

ymweliadau dysgu, mae hefyd yn anelu at gyflwyno dros 90 o weithdai ysgolion y flwyddyn yn ystod y tair blynedd gyntaf ar ôl ei hagor.

- mae CELF wedi gosod targedau i gynyddu nifer y bobl sy'n mynd i leoedd celfyddyd gyfoes yng Nghymru yn raddol gan 3%. Mae hefyd yn anelu at gynyddu cyfanswm y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r celfyddydau bob blwyddyn, a chynyddu nifer yr ymwelwyr blyneddol mewn 11 o safleoedd orielau, ac ar ei blatfform digidol.

Gan nad yw nifer o'r prosiectau hyn ar agor i'r cyhoedd eto, dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd o ganlyniadau a wireddwyd ar adeg y gwerthusiad hwn. Er enghraifft, mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi cyflawni sawl canlyniad cyn-agor yn y maes hwn trwy sesiynau ymgysylltu addysg, digwyddiadau a gynhelir yn y llyfrgell, a gweithgareddau amgueddfa dros dro. Yn arbennig, mae eisoes wedi cynnal 38 o sesiynau ymgysylltu addysg cyn agor, ac wedi cyrraedd dros 600 o ymwelwyr drwy weithgareddau cyn agor o'r fath ar adeg cynnal y gwerthusiad hwn. Ar ben hynny, cyflwynodd Theatr Clwyd Profiadau Cyntaf, rhaglen ymgysylltu am ddim i blant, a gynlluniwyd i'w cyflwyno i offerynnau cerdd. Cymerodd pob ysgol gynradd yn Sir y Fflint ran yn y rhaglen yn 2025/2026, gan arwain at gyngerdd a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â cherddorion o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Mae canlyniadau cynyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn amlwg ar draws prosiectau a ariennir drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, ac mae chwech ohonynt eisoes wedi nodi rhai allbynnau wedi eu gwireddu yn y maes hwn. Mae enghreifftiau darluniadol o allbynnau o'r fath yn cynnwys y canlynol:

- cynnydd o 29% yn nifer yr ymwelwyr, o'i gymharu â 2023/2024, o fewn y chwe mis cyntaf o agor ar ôl adnewyddu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen – Llyfrgell Betws.
- cynnydd o 82% yn nifer yr ymwelwyr â Llyfrgell y Barri yn 2023, o'i gymharu â'i llinell sylfaen yn 2021.
- cyflwyno 20 ymweliad ysgol gan gyrraedd cynulleidfa o ryw 1,300 o blant yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn 2023.

Ar adeg y gwerthusiad hwn, nid oedd unrhyw dystiolaeth feintiol ar gael yn erbyn y dangosyddion penodol hyn, na dangosyddion penodol tebyg, ar gyfer y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau.

At ei gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at yr effeithiau posibl y gall buddsoddiad cyfalaf eu cael ar gynyddu ymgysylltu â'r cyhoedd drwy wella cyfleusterau a chreu cyfleoedd newydd i gynulleidfaoedd gael mynediad at asedau diwylliannol a rhyngweithio â nhw.

4.2.2.2. Perfformiad ariannol y sefydliad

Mae maes arall o ganlyniadau yn ymwneud â'r graddau y mae buddsoddiad cyfalaf yn cyfrannu at berfformiad ariannol sefydliad. Mae hyn yn cynnwys yr incwm a enillir gan y prosiectau grant amrywiol drwy werthiant tocynnau, refeniw manwerthu, yn ogystal â'r effeithlonrwydd cost y mae sefydliadau yn ei gynhyrchu drwy ostyngiadau mewn gwariant ynni a chostau cynnal a chadw asedau. Er bod tri allan o'r pum prosiect / rhaglen yn targedu

allbynnau yn y maes hwn yn benodol, mae tystiolaeth gyfyngedig ar hyn o bryd o allbynnau wedi eu cyflawni oherwydd y cam cyflawni. Mae'r allbynnau a wireddwyd a nodwyd hyd yma yn deillio yn bennaf o Theatr Clwyd a'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, lle'r oedd gan rai grantiau ddogfennau adrodd diwedd prosiect eisoes.

Ymhlith y tri phrosiect cyfalaf mawr, mae Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi nodi targedau penodol yn y maes hwn:

- mae Theatr Clwyd wedi gosod targedau blynyddol clir i gryfhau ei pherfformiad ariannol cyffredinol yn dilyn ailagor. Mae'r targedau hyn yn cynnwys cynyddu ffrydiau refeniw, gan gynnwys cynnydd blynyddol o £2.7 miliwn mewn incwm swyddfa docynnau, £800,000 o bunnoedd o incwm masnachol, a gwarged blynyddol o fwy na £200,000. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'i hadroddiadau ymddiriedolaeth (2025) yn dangos bod cynyrchiadau Theatr Clwyd ar y trywydd iawn i gyrraedd neu ragori ar eu targedau gwerthu tocynnau, er mai dim ond dros amser y bydd hyn yn dod yn gwbl amlwg. Yn olaf, mae tystiolaeth o'r adroddiadau hyn yn dangos bod Theatr Clwyd wedi gosod targed o £5 miliwn ar gyfer codi arian preifat, a'i bod bellach ond £90,000 yn brin o'i gyflawni.
- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru hefyd yn nodi cynnydd mewn incwm masnachol o logi'r siop, y caffi a'r lleoliad fel allbwn penodol yn ei achos busnes llawn.

Ymhlith y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, mae tri grant eisoes wedi nodi canlyniadau datblygol yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- arbedion cost a gynhyrchwyd drwy systemau ynni gwell yn Llyfrgell Ystradgynlais yng Nghyngor Sir Powys.
- cyfanswm incwm safle o ryw £350,000 yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn 2024/2025.
- cynnydd o 15% yn incwm llogi ystafelloedd yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen – Llyfrgell Betws.

Ar adeg y gwerthusiad hwn, roedd tystiolaeth gyfyngedig o ganlyniadau a wireddwyd yn y maes hwn ar gyfer CELF a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau, er bod CELF wedi bod yn datblygu strategaeth ariannu i nodi ffrydiau ariannu posibl yn y dyfodol a lleihau dibyniaeth ar gyllid craidd dros amser. Mae hyn yn cynrychioli bwlch sylweddol yn y dystiolaeth sydd ar gael o fewn y canlyniad hwn ar adeg cynnal y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, gall y gweithgareddau cyfalaf o fewn CELF a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau gyfrannu at welliannau mewn perfformiad ariannol. Er enghraifft, gall gwelliannau i storio a gofalu am gasgliadau alluogi sefydliadau i wneud defnydd mwy o'u casgliadau drwy arddangosfeydd, cynhyrchu arbedion cost, a chynyddu refeniw drwy gynyddu ymgysylltu ag ymwelwyr. Felly, argymhellir monitro parhaus o fuddion yn y maes hwn ar gyfer y ddwy raglen hon.

Felly, mae gan y Grantiau Cyfalaf Diwylliant rôl bosibl mewn gwella perfformiad ariannol sefydliad neu fenter yn yr hirdymor.

4.2.2.3. Cyfraniad economaidd lleol

Yn cyd-fynd yn agos â'r canlyniad blaenorol ar gynyddu ymgysylltu â'r cyhoedd y mae'r cyfraniad economaidd lleol a gynhyrchir gan yr amrywiol asedau diwylliannol yn yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys gwariant gan ymwelwyr o fewn ardal leol, gan gynnwys ymwelwyr o rannau eraill o'r wlad. Mae hefyd yn cynnwys y gwahanol swyddi sy'n cael eu cynorthwyo yn anuniongyrchol o fewn yr economi leol oherwydd y gweithgarwch economaidd a gynhyrchir gan y gwahanol sefydliadau diwylliannol. Mae'r buddion economaidd lleol hyn yn cronni dros amser, ac felly, nid yw'r prosiectau a gefnogir gan y Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn dwyn effeithiau wedi eu gwireddu ar adeg y gwerthusiad hwn.

Er nad oes unrhyw ganlyniadau wedi eu gwireddu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r tri phrosiect cyfalaf mawr wedi gosod canlyniadau penodol y maent yn anelu at eu cyflawni dros amser:

- mae Theatr Clwyd wedi gosod targed o £9 miliwn mewn effeithiau economaidd y mae'n anelu at eu cynhyrchu yn y Gogledd-ddwyrain erbyn 2027. Ei nod yw cyflawni'r targed hwn drwy ei wariant ei hun o fewn yr economi leol, yn ogystal â thrwy wariant oddi ar y safle gan gynulleidfaoedd o fewn sectorau eraill, fel y sector lletygarwch, yn enwedig gan bobl nad ydynt yn breswylwyr sy'n teithio i wylïo cynyrchiadau.
- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn rhestru amrywiol ganlyniadau yn y maes hwn yn ei hachos busnes llawn. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd cynaliadwy yn amser aros a gwariant ymwelwyr yn Wrecsam, yn ogystal â chynnydd mewn buddsoddiad yn economïau creadigol ac ymwelwyr Wrecsam.
- nod CELF yw cynyddu ei heffaith economaidd ar fusnesau lleol lle gellir lleoli orielau drwy gynnal arddangosfeydd, denu rhagor o ymwelwyr a chynyddu gwariant eilaidd. Er bod rhywfaint o dystiolaeth wedi ei hadrodd o gynnydd mewn gwariant eilaidd mewn caffis a siopau, mae'r prosiect yn cydnabod y gellir gwneud mwy i gofnodi a monitro canlyniadau yn y maes hwn ar adeg y gwerthusiad hwn.

Yn olaf, nid yw'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid na'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau yn adrodd ar ganlyniadau penodol yn y maes hwn, sy'n ffurfio bwlch yn y dystiolaeth sydd ar gael ar adeg cynnal y gwerthusiad hwn.

4.2.2.4. Cydlyniant cymdeithasol a chysylltu â'r gymuned

Gall buddsoddiadau cyfalaf mewn asedau diwylliannol gyfrannu at ganlyniadau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymdeithasol a chysylltedd cymunedol. Mae hwn yn faes canlyniad a dargedir yn aml ar draws y prosiectau sydd o fewn cwrmpas y gwerthusiad hwn, gyda phedwar allan o'r pum prosiect / rhaglen wedi eu nodi fel rhai sydd â chanlyniadau bwriadedig yn y maes hwn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r canlyniadau hyn wedi eu gwireddu eto, gan adlewyrchu'r cam cyflawni presennol, gyda sawl prosiect yn dal i gael eu datblygu neu yn eu camau cynnar.

Canfuwyd bod pob un o'r tri phrosiect cyfalaf mawr yn targedu canlyniadau wedi eu halinio yn benodol o fewn y maes hwn. Er enghraifft:

- yn arbennig, mae gan Amgueddfa Bêl-droed Cymru dri chanlyniad penodol wedi eu hamlinellu yn ei hachos busnes llawn, sy'n cyd-fynd â'r maes hwn. Yn benodol, mae'n (i) anelu at wella balchder dinesig yn yr amgueddfa a chanol y dref, (ii) gwella cydlyniant cymunedol yn benodol trwy gyfranogiad diwylliannol, a (iii) gwneud Wrecsam yn ddinas fwy bywiog, deniadol a chynaliadwy.
- mae Theatr Clwyd hefyd wedi dechrau denu sylw'r cyfryngau cenedlaethol i Sir y Fflint, gan wella enw da ac amlygrwydd yr ardal drwy gynyrchiadau fel *'tick, tick ... BOOM!'*, er gwaethaf cyfyngiadau ei hagoriad graddol.
- nod CELF yw cynyddu proffil celf gyfoes yng Nghymru a chreu ymdeimlad o falchder cenedlaethol yn y prosiect. Mae hefyd yn anelu at ddarparu cynyrchiadau o ansawdd cymharol â gwledydd eraill yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli o'r dogfennau hefyd yn nodi bod CELF wedi dechrau cyflawni ei nodau creu lleoedd trwy gynyddu nifer y cynulleidfaoedd o'r tu hwnt i Gymru.

Canfuwyd hefyd fod prosiectau o fewn y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid yn targedu canlyniadau yn weithredol yn y maes hwn, ac mae pedwar prosiect wedi dechrau dangos rhywfaint o dystiolaeth datblygol o ganlyniadau a wireddwyd yn y maes hwn:

- mae Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda wedi gwella cysylltiad emosiynol ymwelwyr â hanes diwydiannol Cymru, fel y dangosir gan adborth ymwelwyr a gasglwyd.
- mae Llyfrgell Ystradgynlais a Chyngor Sir Powys wedi cyflawni gwaith adnewyddu mewn cymuned ddiarffordd, ac wedi ymgysylltu â'r gymuned leol hefyd drwy weithgareddau a gyflwynir mewn ysgolion, ac i oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynnydd hefyd wedi ei adrodd yn nifer y grwpiau cymunedol sy'n cysylltu â'r llyfrgell i gyflawni mentrau yn y dyfodol.
- mae Lle Creu Llyfrgell y Barri wedi darparu cyfres o wasanaethau cymdeithasol ac wedi ariannu sesiynau hyfforddi celf ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

Ar adeg cynnal y gwerthusiad hwn, nid yw prosiectau o fewn y Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau yn adrodd ar ddangosyddion penodol yn y maes hwn, bwlch yn y dystiolaeth bresennol.

Er bod sawl prosiect yn nodi canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymdeithasol yn benodol fel nod wedi ei dargedu, mae'n anos mesur graddfa lawn canlyniadau o'r fath yn feintiol mewn gwirionedd oherwydd eu natur anniriaethol. Mae hyn yn creu her fawr wrth geisio dangos dystiolaeth o ganlyniadau yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae CELF yn tynnu sylw at rai ffyrdd y mae'n anelu at fesur canlyniadau yn y maes hwn, megis drwy arolygon o ymwelwyr, monitro sylw'r cyfryngau cenedlaethol, a nifer yr erthyglau yn y cyfryngau cenedlaethol a rhyngwladol. Yn yr un modd, argymhellir bod prosiectau eraill yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu dangosyddion i fesur canlyniadau yn y maes hwn.

4.2.2.5. Gwell stiwardiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth

Maes canlyniad arall sy'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yw gwell stiwardiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella'r gwaith o ofalu am y casgliadau a'u rheoli, e.e. drwy eu storio mewn amodau amgylcheddol cydymffurfiol, yn ogystal â gwella'r gwaith o gynnal a chadw adeiladau treftadaeth, a'u defnyddio'n

gynaliadwy. Mae'r maes canlyniad hwn yn arbennig o berthnasol i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd sy'n ceisio cadw asedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r adolygiad o ddogfennau yn dangos bod pedwar o'r pum prosiect cyfalaf wedi targedu canlyniadau yn weithredol yn y maes hwn.

Mae'r tri phrosiect cyfalaf mawr yn targedu canlyniadau datganedig yn y maes hwn yn weithredol, gyda CELF hefyd yn dangos rhai effeithiau datblygol yn y maes:

- mae tystiolaeth o ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â CELF yn dangos bod 51% o ymwelwyr eisoes wedi sylwi ar welliannau i amgylcheddau orielau.
- un o brif nodau gwaith cyfalaf Theatr Clwyd oedd sicrhau diogelwch yr adeilad ac atal y tebygolrwydd o'i gau oherwydd diffyg buddsoddiad a chynnal a chadw'r adeilad yn y blynyddoedd blaenorol. Felly, mae'r gwaith cyfalaf yn galluogi cadwraeth a defnydd cynaliadwy yr adeilad yn y dyfodol yn weithredol.
- nod Amgueddfa Bêl-droed Cymru yw gwella cyfleusterau rheoli casgliadau ar draws y safle er mwyn sicrhau cadwraeth a hyrwyddo hirdymor ei chasgliadau.

Ar wahân i'r prosiectau cyfalaf mawr, mae sawl grant sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau, yn ogystal â'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, wedi targedu allbynnau yn y maes hwn yn weithredol, gyda chwe grant i gyd yn dangos canlyniadau datblygol yn y maes hwn. Mae enghreifftiau nodedig o'r canlyniadau a wireddwyd yn cynnwys y canlynol:

- gwelliant cyffredinol yn yr amgylchiadau storio ar gyfer bron i 20% o'r casgliadau a gedwir yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin.
- adleoli sawl darn o gasgliadau o storfa amhriodol i leoliadau newydd wedi eu trefnu yn ôl math y deunydd a pherthnasedd ym Mhlas Newydd, a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- prosesau rheoli casgliadau gwell drwy ôl-osod ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd archifau yn storfeydd casgliadau Llanerchaeron.
- defnyddio dulliau digideiddio i arddangos gwrthrychau bregus a gwrthrychau sy'n sensitif i'r amgylchedd, a thrwy hynny gydbwyso mynediad at asedau treftadaeth wrth sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda.

Felly, mae'r gwaith cyfalaf a wneir gan y Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn chwarae rhan bwysig wrth wella stiwardiaeth asedau diwylliannol a threftadaeth sy'n gysylltiedig â sawl prosiect.

4.2.2.6. Perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol yn faes canlyniad canolog i'r prosiectau diwylliannol, gyda'r pum prosiect i gyd yn darparu adroddiad yn weithredol ar ganlyniadau yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau megis llai o allyriadau carbon, defnydd o ynni, a mathau eraill o effeithlonrwydd o ran adnoddau. O ystyried natur hirdymor canlyniadau o'r fath, mae sawl canlyniad o'r fath heb eu gwireddu eto, yn enwedig gan y prosiectau cyfalaf mawr. Ymhlith y prosiectau llai, mae chwe grant sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid eisoes wedi dechrau dangos canlyniadau datblygol

yn y maes hwn, gyda sawl un arall yn anelu at dargedu canlyniadau tebyg yn y meysydd hyn, fel y trafodir isod.

Mae'r tri phrosiect cyfalaf diwylliant mawr yn anelu'n weithredol at dargedu sawl canlyniad o fewn y maes canlyniad hwn, gyda rhai targedau eisoes yn cael eu cyflawni:

- mae Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru ill dwy yn anelu at gyflawni safonau 'da iawn' o ran BREEAM. Erbyn 2025, mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi nodi ei bod eisoes wedi cyflawni rhyw 20% o'r sgôr, a bydd mwy o'r prosiect yn cael ei wireddu dros amser wrth iddo ddod yn weithredol. Mae Theatr Clwyd eisoes wedi nodi ei bod wedi cyflawni ei tharged, yn seiliedig ar adroddiad o berfformiad amgylcheddol 2025.
- mae Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru hefyd yn anelu at leihau eu hallyriadau CO₂ 60% a 25% yn y drefn honno.
- er nad yw CELF wedi cynhyrchu amcangyfrifon meintiol, mae'r adroddiadau yn dangos bod y gwaith cyfalaf wedi galluogi gwelliannau hanfodol i reolaethau amgylcheddol hefyd.

Ymhlith y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau, mae gan sawl grant nodau penodol y maent yn anelu at eu cyflawni. Er enghraifft, mae Amgueddfa Llangollen (sy'n gysylltiedig â gweithiau'r casgliad) yn anelu at leihau ei defnydd cyffredinol o ynni 5% yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl iddi agor. Ar ben hynny, mae chwe Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid wedi dechrau dangos gwelliannau mewn canlyniadau yn y maes hwn. Mae rhai enghreifftiau nodedig yn cynnwys y canlynol:

- gostyngiad o dros 3.6 tonnell o allyriadau CO₂ yn Llyfrgell Ystradgynlais o'i gymharu â'r llinell sylfaen (cyn gwaith cyfalaf).
- gostyngiad o 25% yn y defnydd o drydan yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn 2024/2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Adroddwyd am ostyngiadau tebyg gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen – Llyfrgell Betws hefyd.
- gwelliannau i sgoriau EPC yn Llyfrgell Arberth yn Sir Benfro, gan gyflawni sgoriau uwchlaw'r targedau gwreiddiol.

Felly, mae'r gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r grantiau diwylliant yn cyfrannu'n sylweddol ac yn gadarnhaol at ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r mesurau cynaliadwy yn amgylcheddol.

4.2.2.7. Buddion o ran llesiant

Y maes olaf o ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau cyfalaf diwylliant yw'r buddion o ran llesiant a gynhyrchir ganddynt. Mae [tystiolaeth dda](#) am effaith diwylliant a threftadaeth ar iechyd a llesiant unigolion. Yn unol â hyn, mae'r tri phrosiect a'r ddwy raglen yn targedu canlyniadau yn y maes hwn yn weithredol. Gan fod y buddion hyn o ran llesiant fel arfer yn cronni drwy ymgysylltu â'r asedau diwylliannol eu hunain, mae sawl canlyniad eto i'w gwireddu ar adeg y gwerthusiad hwn, gan nad yw sawl prosiect ar waith eto.

Mae'r tri phrosiect cyfalaf mawr yn cynllunio'n weithredol ar fonitro'r buddion o ran llesiant sy'n gysylltiedig â'u gwaith.

- mae rhaglenni dysgu a rhaglenni cymunedol yn parhau i fod yn ganolog i Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru, sydd yn eu tro o fudd i gyfranogwyr trwy ganlyniadau dysgu, cymdeithasol a llesiant.
- mae Theatr Clwyd hefyd yn anelu at gefnogi'r gymuned leol a chyflawni canlyniadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad a chyfiawnder ieuenctid, llesiant, yn ogystal â mynd i'r afael yn weithredol ag unigedd.
- mae Amgueddfa Bêl-droed Cymru hefyd yn bwriadu gwneud cymunedau a thrigolion Wrecsam yn hapusach, yn iachach, ac yn gyfoethocach.

Mae CELF ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn bwriadu monitro'r buddion o ran llesiant y maen nhw'n eu cynhyrchu trwy sgoriau hunangofnodedig ar ganlyniadau iechyd a llesiant unigolion sy'n ymweld â'r safleoedd hyn.

Yn yr un modd, mae'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a CELF hefyd yn anelu at wella canlyniadau llesiant. Mae dau grant hefyd wedi dechrau dangos canlyniadau cyfyngedig datblygol yn y maes hwn:

- mae casgliad amgueddfeydd Treftadaeth MonLife yn dangos rhywfaint o dystiolaeth ansoddol o lesiant cadarnhaol sy'n gysylltiedig â gwella cyfleusterau'r casgliadau yn amgueddfeydd Cas-gwent a Neuadd y Sir. Mae hefyd wedi cyflwyno sesiynau celf a llesiant pwrpasol i blant.
- mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â storfa casgliadau Llanerchaeron hefyd yn dangos y byddai wedi gweld cynnydd ym modlonrwydd staff ac ymwelwyr trwy brosesau rheoli gwell, yn ogystal â sesiynau cymunedol ac ysgol. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at effaith bosibl y gwaith cyfalaf, nid yn unig ar ymwelwyr â safleoedd, ond staff sy'n gweithio ar safleoedd hefyd.

At ei gilydd, mae'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn anelu'n weithredol at gyfrannu at ganlyniadau llesiant, a bydd nifer ohonynt yn cael eu gwireddu wrth i brosiectau ddod yn weithredol dros amser.

4.3 Gweithgareddau gwerthuso arfaethedig

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad o'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn ystod camau cynnar o'r broses o'u rhoi ar waith. Felly, mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar yr allbynnau a'r canlyniadau a fesurwyd drwy ddogfennaeth ar lefel prosiect a gynhyrchwyd hyd yn hyn i roi golwg gychwynnol ar yr effeithiau datblygol sy'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. O ystyried camau cynnar sawl prosiect, efallai mai dim ond yn y tymor canolig i'r hirdymor y bydd llawer o'r effeithiau yn weladwy. O'r herwydd, mae sawl prosiect wedi rhestru eu dulliau o fonitro a gwerthuso eu prosiectau. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dulliau ar gyfer gweithgareddau gwerthuso arfaethedig yn y dyfodol ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant sydd wedi eu cynllunio ar hyn o bryd.

Mae'r adolygiad o'r ddogfennaeth yn dangos bod dulliau gwerthuso arfaethedig yn y dyfodol yn amrywio ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Nodwyd dau fath eang o weithgarwch gwerthuso a monitro yn y dyfodol:

- **Gweithgareddau gwerthuso ffurfiol arfaethedig:** mae hyn yn cynnwys adolygiadau gweithredu prosiectau, adroddiadau interim, adroddiadau terfynol, ac adolygiadau ôl-werthuso. Mae'r rhain wedi eu cynllunio ar gyfer y tri phrosiect cyfalaf mawr (Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a CELF), neu fe'u disgwylir ar eu cyfer.
- **Monitro dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel prosiect:** mae hyn yn cynnwys darparu adroddiad yn orfodol ar ddiwedd prosiect, monitro parhaus o ddangosyddion perfformiad allweddol drwy fecanweithiau adborth fel arolygon ymwelwyr, a chasglu gwybodaeth feintiol sy'n benodol i'r grant. Mae'r math hwn o fonitro yn berthnasol ar draws pob prosiect a rhaglen o fewn cwmphas y gwerthusiad hwn.

4.3.1 Gweithgareddau gwerthuso ffurfiol arfaethedig

Mae'r ddogfennaeth a adolygwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn nodi dau fath eang o weithgarwch gwerthuso arfaethedig yn y dyfodol ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant: (i) gweithgareddau gwerthuso ffurfiol, a (ii) gwaith monitro dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel prosiect. Mae natur y dulliau hyn yn amrywio ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, ac yn adlewyrchu'n fras maint a math y prosiectau a ariennir. Yn fras, mae pob prosiect / rhaglen, waeth beth fo'u maint, yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol mewnol i ryw raddau ar hyn o bryd neu'n bwriadu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae gan y prosiectau ar raddfa fwy fframweithiau gwerthuso mwy strwythuredig a ffurfiol ar waith yn gyffredinol, o'i gymharu â'r grantiau ar raddfa lai o fewn y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau.

Ar gyfer prosiectau Grantiau Cyfalaf Diwylliant mwy o faint, mae dulliau gwerthuso fel arfer yn cael eu hamlinellu trwy gynlluniau gwireddu buddion, sy'n nodi meysydd budd penodol a mesurau perfformiad cysylltiedig. Mae'r cynlluniau hyn yn mapio'r buddion bwriadedig i fecanweithiau monitro, a all gynnwys darparu adroddiad ar brosiectau yn fisol, monitro dangosyddion perfformiad allweddol megis presenoldeb ymwelwyr a nifer yr ymwelwyr, arolygon cyhoeddus, darparu adroddiad yn chwarterol, monitro'r cyfryngau, a chynnal asesiadau effaith economaidd yn rheolaidd. Yn gyffredinol, cynllunnir y gweithgareddau monitro hyn dros gyfnodau hwy (hyd at 10 mlynedd mewn rhai achosion), sy'n adlewyrchu natur hirdymor y buddion y disgwylir eu gwireddu o'r buddsoddiadau cyfalaf mawr hyn. Yn ogystal, mae'r prosiectau hyn yn destun amrywiaeth o brosesau adolygu ffurfiol, gan gynnwys adolygiadau gweithredu prosiectau, adroddiadau interim, adroddiadau terfynol, ac adolygiadau ôl-werthuso. Fel arfer, cynhelir adolygiadau gweithredu prosiectau yn fuan ar ôl cwblhau gwaith cyfalaf, tra bod adolygiadau gweithredu prosiectau yn cael eu cynnal o leiaf 12 mis ar ôl i'r cyfleuster ddod yn weithredol er mwyn caniatáu digon o amser i fuddion ddechrau dod i'r amlwg. Mae'r prosesau hyn hefyd yn cynnwys darparu adroddiad i nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru a chyrrff allanol megis Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Felly, mae gan y prosiectau cyfalaf diwylliant mwy weithgareddau gwerthuso mwy ffurfiol a chyfannol wedi eu cynllunio fel arfer.

Mae dogfennaeth ar lefel prosiect^{troednodyn8} ar draws y tri phrosiect cyfalaf mawr yn amlinellu amserlenni bras ar gyfer yr adolygiadau gweithredu prosiectau a'r adolygiadau ôl-werthuso arfaethedig. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y ddogfennaeth sydd ar gael adeg y gwerthusiad hwn, mae statws a chwblhad y gweithgareddau hyn yn parhau i fod yn aneglur ar draws pob prosiect.

- **CELF:** mae'r ddogfennaeth yn dangos ei bod hi'n bosibl cynnal adolygiadau gweithredu prosiectau yn 2025/2026, ac erbyn hynny byddai pob oriel wedi cwblhau gwaith cyfalaf, a byddai'r model dosbarthedig yn gwbl weithredol. Mae fframwaith adolygiadau ôl-werthuso arfaethedig a amlinellwyd gan CELF yn nodi buddion tymor byr i'w hasesu'n gyntaf erbyn mis Mawrth 2025, buddion tymor canolig erbyn mis Mawrth 2027, a buddion tymor hwy o 2027 ymlaen.
- **Amgueddfa Bêl-droed Cymru:** mae dogfennaeth a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod adolygiad gweithredu prosiect wedi ei gynllunio yn wreiddiol ar gyfer 5 Mehefin 2026, gydag adolygiad ôl-werthuso arfaethedig wedi ei drefnu ar gyfer 8 Mehefin 2029, fel yr amlinellwyd yn yr achos busnes llawn a dogfennaeth yr adroddiad interim ar ddiwedd grant. Fodd bynnag, mae union amseriad y ddau yn dibynnu ar pryd y bydd yr amgueddfa yn gwbl weithredol.
- **Theatr Clwyd:** mae dogfennaeth yn dangos mai'r bwriad yw cynnal adolygiad gweithredu prosiect rhyw dri mis ar ôl dechrau gweithrediadau yn Theatr Clwyd, gan ganiatáu amser i gwblhau'r gwaith o drwsio'r adeilad ac i gael adborth gan y gynulleidfa, cyfranogwyr a defnyddwyr. Y bwriad yw cynnal adolygiad ôl-werthuso ar ôl y 12 mis cyntaf o weithredu.

4.3.2 Monitro dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel prosiect

Mewn cyferbyniad, mae gweithgareddau monitro ar gyfer y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid a'r Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau yn canolbwyntio'n gyffredinol ar lefel grant unigol. Mae dogfennaeth y grantiau yn dangos bod derbynwyr yn bwriadu olrhain cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect trwy fecanweithiau fel ffurflenni adborth, data ymwelwyr, a dangosyddion meintiol eraill. Bydd gofyn i brosiectau a ariennir drwy'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid nad ydynt wedi cynhyrchu adroddiadau diwedd prosiect eto wneud hynny ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Er bod y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn aml wedi eu diffinio'n glir, mae monitro yn tueddu i ddigwydd ar raddfa lai, ac y mae wedi ei strwythuro'n llai ffurfiol, gan adlewyrchu graddfa gyfrannol lai y grantiau hyn. Ni wnaeth yr adolygiad o'r ddogfennaeth nodi cynlluniau ar gyfer gwerthusiad ehangach ar lefel y rhaglen, nac ar gyfer synthesis systematig o ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws prosiectau o fewn y rhaglenni grant llai hyn. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd tystiolaeth yn y dyfodol ar effeithiau yn parhau i fod yn benodol i brosiectau yn bennaf, oni bai fod gweithgareddau gwerthuso ychwanegol ar lefel rhaglen yn cael eu cynnal.

Troednodyn

⁸ Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau achos busnes llawn, cynlluniau monitro a gwerthuso, ac adroddiadau gwerthuso interim presennol.

5. Casgliad ac argymhellion

Mae'r gwerthusiad hwn wedi darparu asesiad ar adeg benodol o bortffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant a'r graddau y mae'n gwneud cynnydd tuag at ei amcanion bwriadedig. Mae'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi cynorthwyo ystod amrywiol o brosiectau ledled Cymru, gan gwmpasu datblygiadau cyfalaf mawr, yn ogystal â buddsoddiadau pwrpasol llai mewn seilwaith diwylliannol, dulliau rheoli casgliadau a chapasiti sefydliadol. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i gryfhau asedau diwylliannol, gwella mynediad at ddiwylliant, a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector diwylliannol yng Nghymru.

Ar adeg y gwerthusiad hwn, roedd y broses o weithredu'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn dal i fynd rhagddi. Er bod rhai prosiectau wedi cwblhau eu gwaith cyfalaf ac yn dechrau cynhyrchu allbynnau a chanlyniadau cynnar, mae eraill yn parhau i fod yn y cyfnod adeiladu neu'r cyfnod gweithredol cynnar. O ganlyniad, mae llawer o'r dystiolaeth a nodwyd drwy'r gwerthusiad hwn yn ymwneud â **chanlyniadau datblygol neu ganlyniadau bwriadedig**, gyda disgwyl i sawl effaith tymor hwy ddod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf wrth i brosiectau ddod yn gwbl weithredol a chael eu hymgorffori yn eu cymunedau.

Felly, mae'r gwerthusiad yn rhoi **cipolwg ar y cynnydd hyd yn hyn**, gan dynnu tystiolaeth ynghyd ar draws prosiectau i ddeall sut y mae'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant wedi eu gweithredu, pa allbynnau a chanlyniadau cynnar sy'n dechrau dod i'r amlwg, a lle y mae bylchau yn y dystiolaeth yn parhau. Ar yr un pryd, mae amrywiaeth y prosiectau a gefnogir drwy'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn tynnu sylw at yr **heriau o agregu effeithiau** ac yn tanlinellu pa mor bwysig yw datblygu dulliau monitro a gwerthuso sy'n cydbwysu'r gallu i gymharu â hyblygrwydd a chymesuredd.

Gan edrych i'r dyfodol, mae cyfleoedd i gryfhau'r sail dystiolaeth ar effeithiau buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yng Nghymru, yn enwedig drwy wella cysondeb data monitro, cefnogi gwerthusiad ehangach o effeithiau ehangach ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, a sicrhau bod rhaglenni'r dyfodol yn parhau i ddangos buddion a rennir, a buddion penodol i brosiectau'r buddsoddiadau hyn. Mae'r argymhellion canlynol yn nodi cyfres o gamau ymarferol y gall Llywodraeth Cymru ystyried eu mabwysiadu i gryfhau monitro, gwerthuso, a dysgu yn y dyfodol ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Argymhelliad 1.

Adnabod set graidd o ddangosyddion a ddefnyddir yn gyffredin

Cam cyntaf tuag at gryfhau gwerthusiadau lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn y dyfodol fyddai nodi **set fach o ddangosyddion craidd** sy'n debygol o fod yn berthnasol ar draws cyfran fawr o brosiectau'r grantiau. Nod yr ymarfer hwn fyddai sefydlu cronfa argymelledig o ddangosyddion y gallai prosiectau ddewis ohonynt y rhai sy'n berthnasol i'w cyd-destun penodol, gan eithrio dim ond y rhai nad ydynt yn amlwg yn berthnasol.

Byddai sefydlu set graidd o'r fath yn helpu i greu **sylfaen dystiolaeth a rennir** ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, gan alluogi'r data a gesglir gan wahanol brosiectau i fod yn fwy cyson. Byddai hyn yn ei dro yn cynorthwyo'r gwaith o agregu a chymharu canlyniadau ar

lefel ehangach y Grantiau Cyfalaf Diwylliant lle bo'n briodol, gan barhau i ganiatáu i brosiectau olrhain dangosyddion sy'n benodol i'w hamcanion eu hunain.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae sawl **thema drawsbynciol** eisoes wedi eu nodi o fewn y model rhesymeg, a allai ddarparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu dangosyddion o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys themâu sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol, stiwardiaeth asedau diwylliannol, gallu sefydliadol, ac ymgysylltu â'r gymuned, fel rhai enghreifftiau. O fewn y themâu hyn, mae nifer o '**deuluoedd dangosyddion**' posibl eisoes wedi eu nodi, gydag enghreifftiau o is-ddangosyddion llai wedi eu rhestru yn eu herbyn. Gallai prosiectau adrodd yn erbyn y teuluoedd dangosyddion a rennir hyn drwy ddewis y rhai sydd fwyaf perthnasol i'w cyd-destun, tra hefyd yn datblygu is-ddangosyddion ychwanegol, penodol i'r prosiect lle bo'n briodol.

Ni fyddai datblygu a mabwysiadu cronfa a rennir o ddangosyddion o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau fesur canlyniadau union yr un fath ym mhob achos, ond byddai'n helpu i sicrhau bod **isafswm o dystiolaeth gymaradwy** yn cael ei chynhyrchu ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, er gwaethaf eu gwahaniaethau. Dros amser, byddai hyn yn cynorthwyo gwerthusiad mwy cadarn ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant o effeithiau ehangach buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yng Nghymru. Mae Atodiad B i'r adroddiad hwn yn darparu set gychwynnol o deuluoedd dangosyddion craidd ochr yn ochr â dangosyddion perfformiad allweddol penodol y gellir eu mabwysiadu gan brosiectau hefyd.

Argymhelliad 2.

Gweithredu fframwaith dangosyddion modiwlaid neu seiliedig ar thema

O ystyried yr amrywiaeth yng nghwmpas, maint a math y prosiectau a ariennir drwy'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, gallai **fframwaith dangosyddion modiwlaid** ategu'r broses o gyflwyno dangosyddion craidd. O dan y dull hwn, byddai set fechan o ddangosyddion craidd (gweler argymhelliad 1) yn cynorthwyo'r gallu i gymharu ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant, ac yn galluogi canlyniadau i gael eu hagregu, lle bo'n briodol, tra byddai modiwlau thematig ychwanegol yn caniatáu i brosiectau adrodd ar allbynnau a chanlyniadau sy'n benodol i'w gweithgareddau.

Byddai'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn cyfrannu at **sylfaen dystiolaeth gyson ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant**, gan gydnabod hefyd fod prosiectau yn wahanol iawn o ran eu hamcanion, eu maint, eu hamserlenni, a'u cyd-destunau gweithredol. Felly, byddai caniatáu i brosiectau ddewis dangosyddion o ystod o fodiwlau thematig yn darparu'r hyblygrwydd y mae ei angen i adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn heb danseilio'r gallu i asesu effeithiau ar draws y Grantiau Cyfalaf Diwylliant cyfan.

Mae'r model rhesymeg a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn eisoes yn darparu sylfaen bosibl ar gyfer dull o'r fath. Mae'r model yn nodi set o themâu allbwn a chanlyniad trawsbynciol sy'n berthnasol ar draws sawl prosiect, gan ganiatáu hefyd i brosiectau unigol ganolbwyntio ar yr elfennau sydd fwyaf perthnasol i'w gweithgareddau. Gallai adeiladu ar y strwythur hwn helpu i gynorthwyo dull mwy systematig a chymesur o fonitro a gwerthuso ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Argymhelliad 3.

Cyflwyno mesuriadau sylfaenol cyson i asesu ychwanegedd

Mae tystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn dangos bod rhai prosiectau eisoes yn cynnwys asesiadau sylfaenol neu'n adrodd ar ganlyniadau mewn perthynas â lefelau cyn y prosiect (e.e. cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, capasiti casgliadau neu ddangosyddion eraill, o'i gymharu â llinell sylfaenol cyn ailddatblygu). Fodd bynnag, nid yw'r arfer hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob prosiect.

Ar gyfer prosiectau / rhaglenni cyfalaf diwylliant yn y dyfodol, gellid cryfhau cadernid y gwaith gwerthuso drwy annog dull mwy systematig o sefydlu mesuriadau sylfaenol ar gyfer prif ddangosyddion ar ddechrau prosiectau. Byddai hyn yn galluogi gwerthusiadau yn y dyfodol i asesu ychwanegedd yn well (y graddau y gellir priodoli newidiadau a welwyd i'r buddsoddiad cyfalaf penodol) gan ddefnyddio dulliau fel cymhariaeth 'cyn ac ar ôl' o ganlyniadau ac effeithiau. Er nad yw dulliau 'cyn ac ar ôl' mor gadarn â dulliau lled-arbrofol, maent yn cyflwyno ffordd ymarferol a mwy cymesur o gryfhau mewnwelediadau i ychwanegedd. Gellir ategu hyn ymhellach gyda thystiolaeth ansoddol i roi cyd-destun a gwirio synnwyr unrhyw newidiadau a welwyd.

Yn bwysig, felly, bwriedir i'r argymhelliad hwn lywio dyluniad fframweithiau monitro a gwerthuso ar gyfer grantiau a rhaglenni yn y dyfodol, yn hytrach na chymhwyso mesurau sylfaenol yn ôl-weithredol i brosiectau sydd eisoes ar y gweill.

Argymhelliad 4.

Safoni diffiniadau o ddangosyddion a dulliau mesur

Mae'r adolygiad o'r dogfennau yn datgelu, hyd yn oed lle mae prosiectau'n adrodd ar ddangosyddion tebyg, y gall diffiniadau a dulliau mesur fod yn wahanol. Byddai darparu canllawiau ar ddiffiniadau dangosyddion a dulliau mesur yn helpu i wella'r gallu i gymharu ar draws prosiectau. Gallai hyn fod ar ffurf 'catalog' syml a safonol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys dangosyddion posibl y gallai prosiectau eu mabwysiadu yn eu gwaith monitro, ochr yn ochr â diffiniadau. Byddai hyn yn sicrhau y gellir cymharu ac agregu data a gesglir ar draws prosiectau yn ystrolon ar lefel ehangach y Grantiau Cyfalaf Diwylliant.

Er enghraifft, mae sawl prosiect yn adrodd ar ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag **ymgysylltu â'r cyhoedd**, megis niferoedd ymwelwyr neu gyfranogiad cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae gan brosiectau y potensial i fesur y rhain mewn gwahanol ffyrdd, megis cofnodi cyfanswm yr ymwelwyr ag adeiladau, presenoldeb trwy docynnau yn unig, neu gyfranogiad mewn digwyddiadau neu raglenni penodol. Yn yr un modd, gellir cofnodi dangosyddion sy'n ymwneud ag **ymgysylltu digidol** yn wahanol ar draws prosiectau, gyda rhai'n darparu adroddiad am ymweliadau â gwefannau, eraill yn olrhain defnyddwyr unigryw, ac eraill yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chasgliadau digidol neu ddigwyddiadau ar-lein.

Bydd rhoi canllawiau ar sut y gellir diffinio a mesur dangosyddion yn helpu i greu mwy o gysondeb yn y metrigau a ddefnyddir ar draws prosiectau.

Argymhelliad 5.

Cryfhau tystiolaeth ar effeithiau ehangach drwy werthusiad canolog ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant

Mae rhai o'r effeithiau a nodwyd yn y model rhesymeg (e.e. buddion o ran llesiant, cyfraniad at economi ymwelwyr) yn anodd eu mesur yn gyson ar lefel prosiectau unigol. Gall disgwyl i bob prosiect a ariennir ddangos tystiolaeth o'r effeithiau ehangach hyn yn annibynnol roi baich neu alw afrealistig ar brosiectau a rhanddeiliaid, nad oes ganddynt efallai yr wybodaeth neu'r gallu penodol i gynnal casglu tystiolaeth o'r fath mewn modd mor gadarn.

Fel dewis arall, gallai Llywodraeth Cymru ystyried ategu gwaith monitro ar lefel y prosiect gyda **gweithgareddau gwerthuso cyfnodol ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant** a gynlluniwyd i asesu'r effeithiau ehangach hyn ar draws y portffolio cyfan. Gallai gwaith o'r fath gynnwys arolygon o ymwelwyr a gydlynir yn ganolog, asesiadau o effaith economaidd, a gwerthusiadau thematig ar draws grwpiau o brosiectau.

Yn bwysig, ni fyddai'r dull hwn yn gofyn am ddisodli'r fframweithiau monitro a gwerthuso presennol sydd eisoes wedi eu hymgorffori yn y prosiectau a'r rhaglenni. Mae prosesau cyfredol sy'n cynnwys amrywiol ofynion ceisiadau am grant, llythyrau dyfarnu, achosion busnes llawn, adolygiadau porth, a fframweithiau monitro ar lefel prosiect yn darparu mecanweithiau pwysig ar gyfer atebolrwydd a goruchwyllo prosiectau. Yn hytrach na disodli'r prosesau hyn, y nod fyddai **cysoni rhai elfennau o fonitro a chasglu data** lle bo'n briodol, er mwyn gwella cymhariaeth a galluogi tystiolaeth i gael ei chasglu yn fwy ystyrlon ar draws prosiectau.

Er enghraifft, gallai gwerthusiadau ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant a gydlynir yn ganolog sefydlu dulliau cyffredin ar gyfer mesur rhai canlyniadau (e.e. ymgysylltu â'r cyhoedd), drwy annog prosiectau i gasglu data sylfaenol cymaradwy ac olrhain newidiadau mewn dangosyddion (e.e. nifer yr ymwelwyr neu gyfranogiad cynulleidfaoedd) dros amser. Pe bai hyn yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag adrodd ar lefel prosiect presennol, byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach a mwy cyson ar **werth cyhoeddus cyfunol ac effeithiau hirdymor buddsoddiad cyfalaf diwylliannol yng Nghymru**, gan osgoi beichiau casglu data anghymesur ar brosiectau unigol.

Argymhelliad 6.

Cymhwyso dull monitro cymesur yn seiliedig ar faint a pherthnasedd y prosiect

O ystyried yr amrywiad eang ym maint y prosiect, lefelau ariannu, a chapasiti sefydliadol ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, dylai gofynion monitro barhau i fod **yn gymesur â maint y prosiect**. Mae'r egwyddor hon eisoes wedi ei hadlewyrchu i ryw raddau yn y trefniadau monitro a gwerthuso presennol, lle mae prosiectau ar raddfa fwy fel arfer yn destun prosesau adrodd a gwerthuso mwy helaeth na grantiau ar raddfa lai.

Wrth i raglenni yn y dyfodol geisio gwella'r graddau y gellir cymharu data monitro ar draws prosiectau, bydd yn bwysig, felly, cydbwyso'r gwaith o gyflwyno dangosyddion a rennir â'r angen i gynnal disgwyliadau cymesur ar gyfer sefydliadau llai. Un dull posibl fyddai cadw **disgwyliadau monitro rhenciog**, lle mae grantiau ar raddfa lai yn canolbwyntio yn bennaf

ar adrodd yn erbyn set gyfyngedig o ddangosyddion craidd, tra bod prosiectau mwy yn adrodd yn erbyn ystod ehangach o ddangosyddion a modiwlau thematig.

Byddai'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod prosiectau llai yn dal i gyfrannu at sylfaen dystiolaeth lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant trwy set o ddangosyddion hylaw cymaradwy, gan osgoi gofynion monitro sy'n anghymesur o feichus. Ar yr un pryd, byddai prosiectau mwy, gyda mwy o adnoddau ac amserlenni cyflawni hwy, mewn gwell sefyllfa i gynhyrchu dystiolaeth fanylach ar allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hwy.

Wrth gymhwyso dull monitro cymesur yn seiliedig ar faint a pherthnasedd y prosiect, gall Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ffactorau ychwanegol wrth benderfynu ar ddwyter priodol ymdrechion a gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae'r [Llyfr Magenta \(2020\)](#) yn nodi meini prawf ar gyfer ymyriadau â 'blaenoriaeth' sy'n gofyn am werthusiadau mwy sylweddol. Mae'r meini prawf hyn fel arfer yn cynnwys polisiâu proffil uchel, lefelau uchel o ansicrwydd neu risg (gan gynnwys canlyniadau negyddol posibl), costau uchel (lle dylai gwerthusiadau o gynlluniau peilot ystyried cost lawn cyflwyno'r polisi o bosibl), a photensial dysgu uchel (lle gall hyd yn oed brosiectau sydd â blaenoriaeth isel ar feini prawf eraill fod â photensial uchel i lenwi bylchau mewn data sy'n bwysig yn strategol).

Atodiad A. Model rhesymeg Grantiau Cyfalaf Diwylliant

1. Mewnbynnau cyllidebol

Cyfanswm y cyllid ar draws prosiectau / rhaglenni (blynyddoedd ariannol 2021/2022 i 2025/2026): £79.86 miliwn

Theatr Clwyd:

- Cyfanswm y cyllid: £47.48 miliwn
- Cyllid Diwylliant Llywodraeth Cymru: £25.38 miliwn

Amgueddfa Bêl-droed Cymru:

- Cyfanswm y cyllid: £13.46 miliwn
- Cyllid Diwylliant Llywodraeth Cymru: £6.32 miliwn

CELF (Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru):

- Cyfanswm y cyllid: £7.79 miliwn
- Cyllid Diwylliant Llywodraeth Cymru: £7.79 miliwn

Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid:

- Cyfanswm y cyllid: £4.43 miliwn (mae angen cyfraniad o 10% o arian cyfatebol, o leiaf, gan y prosiectau eu hunain)

Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau:

- Cyfanswm y cyllid: £6.71 miliwn
- Cyllid Diwylliant Llywodraeth Cymru: £6.71 miliwn

2. Gweithgareddau

Theatr Clwyd:

- Ailddatblygu cyfalaf i fynd i'r afael â diogelwch, hygyrchedd, a seilwaith sy'n heneiddio.
- Cyflwyno manau perfformio, ardaloedd cymunedol a chyhoeddus wedi eu moderneiddio.
- Gweithredu mesurau cynaliadwyedd a lleihau carbon.

Amgueddfa Bêl-droed Cymru:

- Trawsnewidiad cyfalaf yn adeilad Amgueddfa Wrecsam i greu amgueddfa bêl-droed genedlaethol
- Datblygu orielau parhaol a thros dro ar gyfer casgliadau pêl-droed Cymru a chasgliadau lleol.
- Gwella mannau ymwelwyr, ac ardaloedd dysgu a chyhoeddus.

CELF (Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru):

- Sefydlu oriel celf gyfoes genedlaethol gan ddefnyddio model partneriaeth wasgaredig.
- Buddsoddiad cyfalaf ar draws orielau partner i wella rheolaethau amgylcheddol, diogelwch a seilwaith.
- Digiddeiddio casgliadau cenedlaethol er mwyn cynnal platfform digidol Celf ar y Cyd ac ehangu mynediad.

Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid:

- Darparu grantiau cyfalaf i foderneiddio cyfleusterau diwylliannol (llyfrgelloedd lleol, archifau ac amgueddfeydd)
- Cymorth i drawsnewid gwasanaethau a modelau cyflenwi cynaliadwy

Rhaglen Gwelliannau Cyfalaf Rheoli Casgliadau:

- Darparu grantiau cyfalaf i wella'r ffordd y caiff casgliadau eu storio a'u rheoli.
- Cyllido gwaith adeiladu, offer, a ffioedd proffesiynol.

3. Allbynnau (gyda dadansoddiadau)

Gwelliannau cyfalaf

- Datblygu seilwaith ffisegol – e.e. metrau sgwâr o ofod sydd wedi ei adnewyddu neu ei ddatblygu yn ddiweddar, nifer y cyfleusterau newydd a grëwyd.
- Gwelliannau amgylcheddol a thechnegol – e.e. ardystiad amgylcheddol wedi ei gyflawni (e.e. sgôr BREEAM), gosod systemau gwresogi neu ynni carbon isel, gosod systemau rheoli amgylcheddol.
- Casgliadau a diogelu asedau – e.e. metrau sgwâr o storfeydd casgliadau a gafodd eu creu neu eu gwella; nifer y systemau diogelwch a gafodd eu gosod neu eu gwella.

Cyflenwi gwasanaethau yn well

- Maint a darpariaeth gwasanaethau – e.e. nifer yr arddangosfeydd a gyflwynir, nifer y cynyrchiadau theatr a lwyfennir, nifer y digwyddiadau neu weithdai a raglennir, nifer y casgliadau hygyrch newydd, nifer yr eitemau diwylliannol newydd sy'n cael eu comisiynu neu eu creu.
- Safonau gwasanaeth a chydymffurfedd ag achredu – e.e. cyflawni neu wella safonau achredu amgueddfeydd, cyflawni neu wella safonau achredu gwasanaeth archifau, sawl un o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gyflawnwyd.
- Darpariaeth o wasanaethau digidol – e.e. nifer y digwyddiadau neu weithdai rhithwir a ddarparwyd, nifer yr adnoddau ar-lein a lansiwyd, nifer yr asedau diwylliannol digidol a wnaed ar gael ar-lein.
- Hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau – e.e. nifer y digwyddiadau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd â blaenoriaeth (e.e. cynulleidfaoedd anghenion addysgol arbennig, niwrowahanol), nifer y perfformiadau hygyrch (e.e. â chapsiynau, Iaith Arwyddion Prydain).

Capasiti'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr

- Cyflogaeth â chymorth – e.e. nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir yn uniongyrchol, nifer y swyddi tymor penodol, neu swyddi prosiect a grëwyd.
- Cyfleoedd gwirfoddoli â chymorth – e.e. nifer y rolau gwirfoddoli a grëwyd neu a gynhaliwyd, cyfanswm yr oriau gwirfoddoli a gofnodwyd.
- Datblygu'r gweithlu a gwella seilwaith gweithio – e.e. nifer y cyfleusterau staff a gafodd eu gwella (e.e. swyddfeydd, ardaloedd llesiant), nifer y staff sy'n cael cyfleoedd hyfforddiant neu gyfleoedd uwchsgilio.

Cymorth i randdeiliaid y sector a chymunedau ymarfer

- Cymorth i gynhyrchwyr / ymarferwyr diwylliannol a chreadigol – e.e. nifer yr artistiaid neu ymarferwyr diwylliannol sy'n cael cyfleoedd hyfforddi neu gyfleoedd i ddatblygu, nifer y cwmnïau preswyl a gynhelir, nifer y gweithwyr llawrydd sy'n ymgysylltu.
- Cymorth i sefydliadau partner diwylliannol a chymunedol – e.e. nifer y cytundebau partneriaeth a sefydlwyd, nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnwyd.

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

- Darpariaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg – e.e. nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau neu ddigwyddiadau yn y Gymraeg a gynhaliwyd, nifer yr asedau diwylliannol digidol yn y Gymraeg sydd ar gael ar-lein.
- Cynrychiolaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru – e.e. nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau neu ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar hanes, diwylliant neu dreftadaeth Cymru, nifer yr arddangosfeydd, cynyrchiadau neu raglenni sy'n cynnwys artistiaid neu ymarferwyr diwylliannol Cymru.

- Cyflenwi gwasanaethau dwyieithog ac arfer sefydliadol – e.e. cyfran y deunyddiau ar gyfer y cyhoedd sydd ar gael yn ddwyieithog, nifer y swyddi a ddynodwyd yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

4. Canlyniadau (gyda dadansoddiadau)

Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd

- Nifer yr ymwelwyr – e.e. cyfanswm yr ymwelwyr, cyfraddau'r ymweliadau rheolaidd, nifer yr ymwelwyr tro cyntaf, hyrwyddo proffil ymwelwyr mwy amrywiol.
- Aelodaeth a theyrngarwch – e.e. niferoedd aelodaeth, cyfraddau'r rheini sy'n adnewyddu aelodaeth, nifer aelodau'r cynllun cefnogwyr neu gynllun noddwyr.
- Cyfranogiad mewn digwyddiadau a gweithdai – e.e. nifer yr unigolion sy'n bresennol mewn digwyddiadau, nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithdai, twf ym mhresenoldeb mewn digwyddiadau / gweithdai.
- Ymgysylltu addysgol – e.e. nifer yr ymweliadau ag ysgolion, nifer y disgyblion sy'n mynd i sesiynau addysgol wedi eu trefnu.
- Ymgysylltu digidol â chasgliadau a gwasanaethau – e.e. sawl gwaith y gwelir y casgliadau digidol, sawl gwaith y caiff adnoddau digidol eu lawrlwytho, nifer yr unigolion sy'n mynd i ddigwyddiadau rhithwir.
- Profiad a boddhad ymwelwyr – e.e. sgoriau boddhad ymwelwyr, sgoriau arolwg profiad defnyddwyr.

Perfformiad ariannol y sefydliad

- Perfformiad incwm a enillir – e.e. refeniw gwerthu tocynnau, refeniw manwerthu, incwm hurio lleoliadau, incwm aelodaeth.
- Effeithlonrwydd cost ac arbedion – e.e. gostyngiadau mewn gwariant ynni, gostyngiadau mewn costau cynnal a chadw adeiladau neu asedau.
- Amrywio incwm – e.e. cyfran yr incwm a enillir yn erbyn cyllid grant, nifer y ffrydiau incwm, incwm partneriaeth fasnachol.

Cyfraniad economaidd lleol

- Gwariant ymwelwyr a gweithgarwch economaidd – e.e. gwariant amcangyfrifedig ymwelwyr yn yr ardal leol, amser aros cyfartalog ymwelwyr, nifer yr arosiadau dros nos sy'n gysylltiedig ag ymweliadau.
- Cyfraniad cyflogaeth – e.e. nifer y swyddi a gynhelir yn anuniongyrchol, a gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol.

Cydluniant cymdeithasol a chysylltu â'r gymuned

- Cyfranogiad a chynhwysiant cymunedol – e.e. cyfranogiad gan grwpiau â blaenoriaeth neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyfranogiad gan bobl ifanc, cyfranogiad o gymunedau sy'n amrywiol yn ddaearyddol.
- Cysylltedd cymunedol a phrofiad a rennir – e.e. ymdeimlad o berthyn yr adroddwyd amdano, cyfleoedd yr adroddwyd amdanynt ar gyfer rhyngweithio o fewn y gymuned leol.
- Hunaniaeth leol a balchder dinesig – e.e. balchder yr adroddir amdano mewn sefydliadau diwylliannol lleol, canfyddiad o'r lleoliad fel ased cymunedol, cydnabyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth leol mewn rhaglenni, proses creu lleoedd well.
- Enw da a gwelededd lle – e.e. nifer y nodweddion cyfryngau mewn allfeydd rhanbarthol neu genedlaethol; sawl gwaith y caiff ei restru ar blatfformau twristiaeth ddiwylliannol neu ganllawiau cyrchfannau; nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol.

Gwell stiwardiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth

- Cadwraeth casgliadau a gofalu amdanynt – e.e. sgoriau asesu cyflwr casgliadau, cyfran y casgliadau a storiwyd mewn amodau cydymffurfiol.
- Defnydd cynaliadwy o adeiladau treftadaeth a gofalu amdanynt – e.e. sgorio cyflwr adeiladau hanesyddol / rhestredig, adeiladau wedi eu tynnu oddi ar gofrestrau 'mewn perygl', mwy o ddefnydd o fannau treftadaeth a oedd yn cael eu tanddefnyddio o'r blaen.

Perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol

- Perfformiad carbon – e.e. allyriadau o garbon sefydliadol, allyriadau o garbon fesul ymwelydd.
- Effeithlonrwydd ynni – e.e. defnydd ynni fesul metr sgwâr, cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy.
- Effeithlonrwydd adnoddau – e.e. defnydd dŵr, gwastraff a gynhyrchir, a chyfran a ailgylchir.

Buddion o ran llesiant

- Llesiant meddyliol ac emosiynol, e.e. sgoriau llesiant hunan-adroddedig, lefelau hunan-adroddedig o fwynhad a boddhad.
- Llesiant cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn – e.e. cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yr hunan-adroddwyd amdanynt, gostyngiad yn lefelau unigrwydd yr hunan-adroddwyd amdano, ymdeimlad o berthyn yr hunan-adroddwyd amdano.

5. Effeithiau (newidiadau hirdymor)

- Mynediad gwell at ddiwylliant, a chyfranogiad gwell ynddo, i bobl ledled Cymru
- Sicrhau bod asedau diwylliannol yn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru yn well
- Dod â diwylliant yn agosach at adref
- Democrateiddio diwylliant
- Gwella cysylltedd â diwylliant
- Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol ymhlith pobl
- Ategu'r ymdrechion i gyflawni cynllun sero net Cymru gyfan a strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru
- Adfywio asedau cymunedol lleol, darparu cyflogaeth a datblygu sgiliau a chyfleoedd eraill
- Hyrwyddo a datblygu'r economi ymwelwyr, ac enw da a phroffil ein diwylliant a'n treftadaeth yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol

Atodiad B. Fframwaith dangosyddion craidd i ategu'r gweithgarwch monitro Grantiau Cyfalaf Diwylliant

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno fframwaith arfaethedig cychwynnol o deuluoedd o ddangosyddion craidd y gellid eu defnyddio i ategu'r gweithgarwch monitro a gwerthuso yn y dyfodol ar draws portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. Mae'r fframwaith wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn a'r model rhesymeg a ddatblygwyd fel rhan o'r ymchwil hon. Er bod y model rhesymeg yn darparu man cychwyn sylfaenol ar gyfer nodi meysydd allbynnau, canlyniadau ac effeithiau, cafodd y fframwaith hwn ei fireinio a'i ehangu ymhellach yn seiliedig ar dystiolaeth ehangach a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad o ddogfennaeth a barn werthusol bellach.

Dewiswyd y teuluoedd o ddangosyddion arfaethedig ar sail ystyriaeth werthusol o sawl ffactor, yn cynnwys pa mor aml yr ymddangosai themâu penodol ar draws prosiectau, eu cymhwysedd tebygol ar draws portffolio prosiectau amrywiol, cymesuredd a lefel y gofynion monitro, a'u defnyddioldeb posibl ar gyfer cynorthwyo gwerthusiad a chymharu ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn y dyfodol.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu teuluoedd o ddangosyddion, bob un ohonynt yn cynrychioli maes eang o allbynnau neu ganlyniadau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ar draws yr holl brosiectau, neu fwyafrif sylweddol ohonynt, o fewn portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant. O fewn pob teulu, mae nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol mwy penodol hefyd wedi eu nodi. Mewn rhai achosion, mae'n debygol y bydd y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gymaradwy ar y cyfan ar draws prosiectau, ac felly gallent gyfrannu at sylfaen dystiolaeth lefel portffolio Grantiau Cyfalaf Diwylliant fwy cyson. Mewn achosion eraill, lle mae dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy yn llai ymarferol oherwydd gwahaniaethau yn nodau, math a maint y prosiect, mae rhestr ddarluniadol o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect wedi ei chynnwys fel enghreifftiau o fesurau y gallai prosiectau unigol eu haddasu o fewn eu fframweithiau monitro eu hunain. Mae'r atodiad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag argymhelliad 1 yr adroddiad hwn, a gynigiodd ddatblygu rhestr gychwynnol o deuluoedd o ddangosyddion craidd a allai gynorthwyo mwy o gymharu a gwerthuso ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, gan roi hyblygrwydd i brosiectau unigol addasu dangosyddion a dangosyddion perfformiad allweddol unigol i weddu i'w hanghenion penodol i'w prosiect.

Y bwriad gyda'r fframwaith hwn yw darparu man cychwyn ymarferol a chymesur, yn hytrach na rhestr derfynol, ragnodol neu gynhwysfawr. Anogir prosiectau i gadw hyblygrwydd i ddatblygu dangosyddion ychwanegol y tu hwnt i'r rhestr arfaethedig hon i gyd-fynd â'u hamcanion eu hunain a'u cyd-destunau penodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r prosiectau cyfalaf mwy, y gallai fod arnynt angen trefniadau monitro mwy manwl i gofnodi'r ystod ehangach o'u heffeithiau posibl, a all fynd y tu hwnt i'r dangosyddion craidd a gynigir yma.

Felly, nid diben y fframwaith hwn yw disodli dulliau monitro ar lefel y prosiect sy'n bodol eisoes ond, yn hytrach, cefnogi mwy o gysondeb a'r gallu i gymharu ar draws y portffolio drwy sefydlu set graidd o deuluoedd o ddangosyddion cyffredinol (a dangosyddion

perfformiad allweddol cymaradwy pan fo modd). Gellid mireinio ac ehangu'r fframwaith hwn ymhellach i adlewyrchu cwmpas ac amrywiaeth prosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant sy'n newid yn y dyfodol.

1. Datblygu seilwaith ffisegol

Diben a pherthnasedd

Mae datblygu seilwaith ffisegol yn cofnodi'r graddau y mae prosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn darparu mannau a chyfleusterau diwylliannol newydd, wedi eu hadnewyddu, neu wedi eu hailgyflunio. Mae'r teulu hwn o ddangosyddion yn ganolog i natur gyfalaf y grantiau, oherwydd bod gwelliannau ffisegol i adeiladau a mannau yn darparu'r sylfaen ar gyfer llawer o allbynnau a chanlyniadau ehangach, gan gynnwys cyflenwi gwasanaethau yn well, a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae rhai dangosyddion perfformiad allweddol penodol sy'n debygol o fod yn gymaradwy ar draws y rhan fwyaf o brosiectau. Er bod math a maint y gwaith cyfalaf yn amrywio'n sylweddol ar draws y portffolio, mae'r rhan fwyaf o ymyriadau a ariennir yn y pen draw yn arwain at greu, adnewyddu, gwella neu ailgyflunio adeiladau a gofod ffisegol. Gall hyn gynnwys mannau sy'n wynebu'r cyhoedd, storfa casgliadau, cyfleusterau staff, neu ardaloedd gweithredol eraill. Felly, mae mesur faint o ofod sydd wedi ei wella yn ffordd ddefnyddiol o gasglu tystiolaeth ar allbynnau ffisegol buddsoddiad cyfalaf, gan barhau i gydnabod amrywiaeth y prosiectau a ariennir.

Dangosyddion o berfformiad allweddol cymaradwy

- **Metrau sgwâr o ofod newydd ei ddatblygu, ei ailgyflunio neu ei wella:** cyfanswm arwynebedd llawr y mannau a grëwyd neu a wellwyd trwy'r buddsoddiad cyfalaf. Gall hyn gynnwys gofod ar gyfer diwylliant, dysgu, cymunedau, manwerthu, storio, cyfleusterau gweithredol, staff neu unrhyw fath arall o ofod.
- **Nifer y cyfleusterau neu'r mannau sydd newydd eu datblygu, eu hailgyflunio neu eu gwella:** nifer yr ystafelloedd, y cyfleusterau neu'r mannau swyddogaethol gwahanol a grëwyd neu a wellwyd drwy'r buddsoddiad cyfalaf.

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Pan fo'n ymarferol, dylai prosiectau ddarparu dadansoddiad o gyfanswm y metrau sgwâr a/neu nifer y lleoedd yn ôl math, a'r defnydd arfaethedig (e.e. gofod ar gyfer wynebu'r cyhoedd, dysgu, cymunedau, manwerthu, storio, cyfleusterau gweithredol neu staff).
- Dylai prosiectau wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o welliant ffisegol – e.e:
 - newydd ei ddatblygu: mae gofod newydd wedi ei greu lle nad oedd un yn bodoli o'r blaen;
 - wedi ei adnewyddu: mae'r gofod sy'n bodoli eisoes wedi ei wella neu ei adnewyddu heb newid ei gynllun na'i swyddogaeth yn sylweddol;
 - ailgyflunio: mae'r gofod sy'n bodoli eisoes wedi ei newid o ran cynllun neu ddefnydd;
 - wedi ei wella: gwella'r gofod sy'n bodoli eisoes drwy ffitiadau, offer, nodweddion hygyrchedd neu welliannau technegol newydd.

- Er mwyn gwella'r gallu i gymharu, wrth adrodd ar fetrau sgwâr, dylai prosiectau ddefnyddio mesur cyson o arwynebedd llawr pan fo modd, yn ddelfrydol arwynebedd llawr net y gellir ei ddefnyddio, gan fod hyn fwyaf cysylltiedig â'r gofod sydd ar gael at ddefnydd diwylliannol, gweithredol neu gyhoeddus.

2. Maint a darpariaeth gwasanaethau

Diben a pherthnasedd

Mae maint a darpariaeth gwasanaethau yn dangos i ba raddau y mae sefydliadau diwylliannol yn gwella, yn ehangu neu'n cynnal y gwasanaethau y maent yn eu darparu i gynulleidfaoedd, defnyddwyr a chymunedau. Mae mesur maint a darpariaeth gwasanaethau yn helpu i asesu sut y mae buddsoddiad cyfalaf yn trosi'n arlwy diwylliannol gwell, gan gynnwys arddangosfeydd, perfformiadau, digwyddiadau, gweithdai, gweithgareddau dysgu, mynediad at gasgliadau, stoc llyfrgell, neu fathau eraill o ddarpariaeth ar gyfer y cyhoedd. Mae'r rhain yn ymwneud â gweithgareddau a alluogwyd trwy'r buddsoddiad cyfalaf a wnaed.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae'n annhebygol y bydd dangosyddion perfformiad allweddol penodol o fewn y teulu dangosyddion hwn yn union yr un fath ar draws pob prosiect oherwydd bod darpariaeth gwasanaethau yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o sefydliad a ariennir gan y grantiau cyfalaf. Er enghraifft, gellir mesur arlwy mwy drwy arddangosfeydd newydd mewn amgueddfa neu oriel, bod mwy o stoc ar gael mewn llyfrgell, neu ddeunydd ychwanegol wedi ei gatalogio, a deunydd hygyrch mewn archif. Felly, dylid trin hyn fel rhywbeth cymaradwy ar lefel y teulu o ddangosyddion, tra dylid dewis dangosyddion perfformiad allweddol penodol i adlewyrchu model gwasanaeth pob prosiect.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

Ni ddisgwylir i unrhyw ddangosydd perfformiad allweddol o fewn y teulu hwn o ddangosyddion fod yn berthnasol yn gyson ar draws pob prosiect.

Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol

Gallai enghreifftiau o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol i brosiectau gynnwys y canlynol:

- nifer yr eitemau stoc llyfrgell ychwanegol a wnaed ar gael yn dilyn adnewyddu neu adleoli
- nifer yr arddangosfeydd parhaol newydd a gyflwynwyd mewn mannau oriel wedi eu hadnewyddu
- nifer y catalogau archif a gwblhawyd ac a wnaed ar gael i ddefnyddwyr yn dilyn buddsoddiad mewn capasiti storio

- nifer y digwyddiadau cyhoeddus, gweithdai, neu weithgareddau cymunedol a raglennwyd mewn manau wedi eu gwella
- nifer yr adnoddau diwylliannol digidol sydd ar gael trwy blatfformau ar-lein y sefydliad

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- ylai prosiectau ddiffinio'r uned cyflenwi gwasanaeth berthnasol yn glir, megis arddangosfa, perfformiad, gweithdy, catalog, eitem stoc, neu adnodd digidol.
- Dylai dangosyddion perfformiad allweddol nodi'r cyfnod adrodd, e.e. y nifer a ddarparwyd yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ailagor.
- Pan fo modd, dylai prosiectau wahaniaethu rhwng darpariaeth newydd, darpariaeth estynedig a darpariaeth a gynhelir.
- Lle mai dangos tystiolaeth o ychwanegedd yw'r nod, a lle bo data perthnasol ar gael, dylai prosiectau gymharu'r ddarpariaeth cyn ac ar ôl buddsoddiad cyfalaf, neu esbonio sut y gwnaeth y buddsoddiad alluogi'r ddarpariaeth gwasanaeth yr adroddwyd amdani.

3. Cyfleoedd cyflogaeth neu wirfoddoli â chymorth

Diben a pherthnasedd

Mae cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli â chymorth yn dangos y graddau y mae prosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn cyfrannu at gapasiti sefydliadol trwy rolau â thâl a gwirfoddoli. Gall buddsoddiad cyfalaf greu neu gynnal swyddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflawni prosiectau, cynnal rolau gweithredol ar ôl ailagor, neu alluogi cyfleoedd gwirfoddoli newydd ac estynedig. Mae mesur y teulu hwn o ddangosyddion yn helpu i asesu a ydyw prosiectau a ariennir yn cryfhau'r sylfaen staffio a gwirfoddolwyr y mae ei hangen i ddarparu a chynnal gwasanaethau diwylliannol gwell.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae'r teulu hwn o ddangosyddion yn berthnasol o bosibl ar draws pob math o sefydliadau diwylliannol, er na ddisgwylir i bob prosiect gynhyrchu cyflogaeth na gwaith gwirfoddol. Bydd ei berthnasedd yn dibynnu ar faint y prosiect, natur y gwaith cyfalaf, ac a ydyw'r buddsoddiad yn creu gofynion gweithredol newydd neu gyfleoedd gwirfoddoli. O'i gymharu â rhai teuluoedd o ddangosyddion eraill, mae dangosyddion perfformiad allweddol penodol yn y maes hwn yn fwy cymaradwy ar draws prosiectau, yn enwedig lle defnyddir mesurau safonol fel swyddi cyfwerth ag amser llawn ac oriau gwirfoddolwyr.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

- **Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gynhelir:** Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd, a gynhelir neu a gefnogir yn uniongyrchol gan y prosiect. Gall hyn gynnwys rolau prosiect tymor penodol, rolau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a ariennir, neu swyddi sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau newydd a alluogir gan y buddsoddiad cyfalaf.

- **Cyfanswm yr oriau gwirfoddol a gefnogwyd:** Cyfanswm yr oriau gwirfoddol a gofnodwyd mewn perthynas â gweithgareddau, gwasanaethau, neu weithrediadau a gefnogir gan y prosiect. Mae hyn yn darparu mesur mwy cymaradwy na nifer y gwirfoddolwyr unigol, oherwydd gall patrymau gwirfoddoli amrywio'n sylweddol ar draws sefydliadau.

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Dylai prosiectau wahaniaethu rhwng swyddi a grëwyd, swyddi a gynhelir, a swyddi a gynhelir dros dro gan y gweithgarwch a ariennir.
- Dylid defnyddio swyddi cyfwerth ag amser llawn pan fo modd, yn hytrach na chyfrif pennau yn unig, i gynorthwyo'r gymhariaeth rhwng rolau llawnamser, rhan-amser a thymor penodol.
- Dylid cofnodi oriau gwirfoddolwyr dros gyfnod adrodd penodol, megis y cyfnod dosbarthu grant, y flwyddyn gyntaf ar ôl ailagor, neu bob blwyddyn ariannol.
- Pan fo modd, dylai prosiectau esbonio'r cysylltiad rhwng y buddsoddiad cyfalaf a'r cyfle o ran cyflogaeth neu wirfoddoli yr adroddwyd amdano.

4. Darpariaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg

Diben a pherthnasedd

Mae darpariaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg yn dangos i ba raddau y mae prosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn cynnal mynediad at ddiwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys arddangosfeydd, perfformiadau, digwyddiadau, dehongli, gweithgareddau dysgu, adnoddau digidol a darpariaeth ddiwylliannol arall sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae mesur y teulu hwn o ddangosyddion yn helpu i asesu sut y mae prosiectau a ariennir yn cyfrannu at welededd a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn lleoliadau diwylliannol.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae'n annhebygol y bydd dangosyddion perfformiad allweddol penodol yr un fath ar draws pob prosiect, gan y bydd ffurf y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl y math o sefydliad. Er enghraifft, gall theatr adrodd ar berfformiadau yn y Gymraeg, gall amgueddfa neu oriel adrodd ar arddangosfeydd dwyieithog, gall llyfrgell adrodd ar stoc neu weithgareddau a ddarperir yn y Gymraeg, a gall prosiect digidol adrodd ar adnoddau ar-lein yn y Gymraeg. Felly, awgrymir cymhariaeth ar lefel y teulu dangosyddion, tra dylai dangosyddion perfformiad allweddol penodol adlewyrchu'r math o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog a ddarperir.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

Ni ddisgwylir i unrhyw ddangosydd perfformiad allweddol o fewn y teulu hwn o ddangosyddion fod yn berthnasol yn gyson ar draws pob prosiect.

Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol

Gallai enghreifftiau o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol i brosiectau gynnwys y canlynol:

- nifer y perfformiadau neu gynyrchiadau theatr Cymraeg a lwyfannwyd
- nifer y gweithdai, sgysiau neu sesiynau dysgu Cymraeg a gyflwynwyd
- nifer yr asedau diwylliannol digidol neu adnoddau ar-lein Cymraeg a gyhoeddwyd
- nifer yr eitemau stoc llyfrgell Cymraeg sydd ar gael i ddefnyddwyr
- nifer yr allbynnau creadigol Cymraeg a gomisiynwyd neu a gynhyrchwyd

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Dylai prosiectau ddiffinio'r uned berthnasol o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn glir, megis arddangosfa, perfformiad, gweithdy, catalog, eitem stoc, neu adnodd digidol.
- Dylai dangosyddion perfformiad allweddol nodi'r cyfnod adrodd, e.e. y nifer a ddarparwyd yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ailagor, fesul blwyddyn ariannol, neu dros y cyfnod adrodd ar y grant.
- Pan fo modd, dylai prosiectau wahaniaethu rhwng darpariaeth newydd, darpariaeth estynedig a darpariaeth a gynhelir.
- Dylai prosiectau wahaniaethu rhwng darpariaeth Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog, a diffinio beth a olygir gan y gair 'dwyieithog' yng nghyd-destun y dangosyddion perfformiad allweddol.
- Lle mai dangos tystiolaeth o ychwanegedd yw'r nod, a lle bo data perthnasol ar gael, dylai prosiectau gymharu'r ddarpariaeth cyn ac ar ôl buddsoddiad cyfalaf, neu esbonio sut y gwnaeth y buddsoddiad alluogi'r ddarpariaeth yr adroddwyd amdani.

5. Nifer yr ymwelwyr

Diben a pherthnasedd

Mae nifer yr ymwelwyr yn dangos i ba raddau y mae prosiectau'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant yn cyrraedd neu'n cynyddu cynulleidfaoedd, defnyddwyr a chymunedau trwy eu mannau ffisegol a'u gwasanaethau. Oherwydd bod y rhan fwyaf o fuddsoddiadau cyfalaf wedi eu bwriadu i wella mynediad i leoliadau, cyfleusterau ac asedau diwylliannol, mae mesur ymweliadau yn rhoi arwydd allweddol o'r ffaith a ydyw prosiectau a ariennir yn denu pobl i ddefnyddio ac ymgysylltu â darpariaeth ddiwylliannol well.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae un dangosydd perfformiad allweddol penodol yn y teulu hwn o ddangosyddion sy'n debygol o fod yn berthnasol ar draws pob prosiect, sef 'cyfanswm yr ymweliadau'. Er y gall gwahanol sefydliadau ddefnyddio gwahanol dermau, fel ymwelwyr, defnyddwyr, cynulleidfaoedd neu'r rheini sy'n bresennol, mae'r mesur sylfaenol yr un fath, fwy neu lai:

nifer y bobl sy'n gorfforol gyrchu neu ddefnyddio'r lleoliad, safle, gwasanaeth neu gyfleuster a ariennir. Er y gall y dangosydd perfformiad allweddol craidd hwn gynorthwyo cysondeb ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, gall prosiectau hefyd elwa ar gasglu mesurau proffil ac ymgysylltu ymwelwyr ychwanegol lle mae'r rhain yn gymesur â maint, cwmphas, a natur eu gweithgareddau sy'n wynebu'r gynulleidfa.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

Cyfanswm yr ymweliadau: cyfanswm yr ymweliadau â'r lleoliad, safle, gwasanaeth neu gyfleuster a ariennir a gofnodwyd dros gyfnod adrodd penodol (e.e. blwyddyn ar ôl ailagor). Dylai hyn gynnwys ymweliadau cyffredinol, yn ogystal ag ymweliadau sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd, perfformiadau, digwyddiadau, gweithdai, gweithgareddau dysgu, neu weithgareddau eraill sy'n wynebu'r cyhoedd.

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Dylid cyfrif ymweliad bob tro y bydd unigolyn yn gorfforol gyrchu neu ddefnyddio'r lleoliad, safle, gwasanaeth neu gyfleuster a ariennir, gydag ymweliadau rheolaidd gan yr un unigolyn yn cael eu cofnodi fel ymweliadau ar wahân. Mae'r dull hwn yn gyffredinol yn fwy ymarferol a chymesur i'w fesur nag olrhain nifer yr ymwelwyr unigryw, gan ei gwneud yn fwy ymarferol ar gyfer prosiectau llai a ariennir gan grantiau sydd â chapasiti monitro cyfyngedig. Mae'r mesur hwn hefyd yn adlewyrchu dulliau sydd eisoes wedi eu mabwysiadu o fewn prosiectau sydd yng nghwmpas y gwerthusiad hwn, megis Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a fesurodd gyfanswm yr ymgysylltu â'i digwyddiadau dysgu cyn agor drwy gynnwys ymweliadau rheolaidd yn ei hadroddiadau.
- Dylid cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, gweithdai, perfformiadau, arddangosfeydd, sesiynau dysgu ac ymweliadau ysgol o fewn cyfanswm yr ymweliadau, lle mae'r rhain yn digwydd yn y lleoliad, y safle, y gwasanaeth neu'r cyfleuster a ariennir neu drwyddynt.
- Pan fo'n ymarferol, gall prosiectau hefyd adrodd ar ddangosyddion atodol, megis nifer yr ymwelwyr unigryw neu gyfraddau'r ymweliadau rheolaidd. Dylid adrodd ar y rhain ar wahân i gyfanswm yr ymweliadau.
- Gall prosiectau hefyd adrodd presenoldeb mewn digwyddiadau / gweithdai fel dangosydd ar wahân i ddangos y math o ymgysylltu sy'n digwydd, ond ni ddylid eithrio hyn o gyfanswm yr ymweliadau.
- Dylai dangosyddion perfformiad allweddol nodi'r cyfnod adrodd, e.e. y flwyddyn gyntaf ar ôl ailagor, fesul blwyddyn ariannol, neu dros gyfnod adrodd y grant.
- Pan fo modd, dylid adrodd am nifer yr ymwelwyr yn erbyn llinell sylfaen cyn-fuddsoddi, a'u holrhain dros amser ar ôl ailagor neu gwblhau.
- Dylai prosiectau nodi'r ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd, megis systemau tocynnau, cyfrifyddion drysau, systemau archebu, systemau rheoli llyfrgelloedd, neu gyfrifon â llaw.

6. Perfformiad carbon ac effeithlonrwydd ynni

Diben a pherthnasedd

Mae perfformiad carbon ac effeithlonrwydd ynni yn cynnwys gwelliannau i gynaliadwyedd amgylcheddol adeiladau a gweithrediadau gwasanaeth trwy fesurau fel inswleiddio gwell, systemau gwresogi wedi eu gwella, cynhyrchu ynni trwy ynni adnewyddadwy a gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cyfleusterau. Yn eu tro, gall y rhain hefyd arwain at arbedion o ran cost o ganlyniad i ddefnyddio llai o ynni a chyfleustodau is fel y rhai a gynhyrchir o wresogi. Mae monitro perfformiad carbon yn helpu i asesu i ba raddau y mae buddsoddiadau cyfalaf diwylliannol yn cyfrannu at amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol, a thrwy hynny gefnogi defnydd mwy cynaliadwy a hirdymor o asedau diwylliannol, creadigol a threftadaeth.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae rhai dangosyddion perfformiad allweddol penodol sy'n debygol o fod yn berthnasol ar draws cyfran fawr o brosiectau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag allyriadau carbon fesul ymwelydd, defnydd ynni, a gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni o fewn adeiladau neu gyfleusterau a ariennir. Fodd bynnag, mae ffactorau fel graddfa sefydliadol, nodweddion adeiladau, a'r graddau y bu cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan o'r buddsoddiad cyfalaf yn debygol o ddylanwadu ar ystod a chymhlethdod y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu monitro gan brosiectau unigol. Er enghraifft, gall prosiectau seilwaith diwylliannol mwy fonitro sawl dimensiwn o berfformiad amgylcheddol, gan gynnwys allyriadau carbon gweithredol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gostyngiadau yn y defnydd o ddŵr, a chyfran y gwastraff adeiladu sy'n cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mewn cyferbyniad, efallai mai dim ond set fwy cyfyngedig o fesurau y bydd gan brosiectau llai a ariennir gan grantiau y gallu i'w monitro, megis y defnydd cyffredinol o ynni neu allyriadau carbon sefydliadol. O ganlyniad, er y gall set graidd o ddangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy gynorthwyo cysondeb ar lefel portffolio'r Grantiau Cyfalaf Diwylliant, gall prosiectau mwy o faint hefyd elwa ar fabwysiadu mesurau monitro amgylcheddol ychwanegol, mwy manwl, sy'n cyd-fynd â maint a chwmpas eu buddsoddiadau.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

Gall enghreifftiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy o fewn y teulu dangosyddion hwn gynnwys y canlynol:

- **Cyfanswm y defnydd o ynni:** cyfanswm yr ynni a ddefnyddir gan yr adeilad, y cyfleuster neu'r ardal brosiect berthnasol bob blwyddyn ariannol, a adroddir fel arfer mewn kWh.
- **Defnydd o ynni fesul metr sgwâr:** cyfanswm yr ynni a ddefnyddir wedi ei rannu ag arwynebedd llawr yr adeilad, y cyfleuster, neu ardal y prosiect perthnasol.
- **Allyriadau carbon:** cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol sy'n gysylltiedig â'r adeilad, y cyfleuster neu'r ardal brosiect berthnasol a ariennir bob blwyddyn ariannol, a adroddir fel arfer fel tunnelli o CO₂e. Dylai prosiectau nodi pa ffynonellau o allyriadau sydd wedi eu cynnwys.
- **Cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy:** canran cyfanswm y defnydd o ynni a gyflenwir o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys cynhyrchu ar y safle neu gaffael ynni adnewyddadwy lle gellir dangos tystiolaeth o hyn.
- **Arbedion o ran cost ynni:** gostyngiad mewn gwariant ar ynni neu gyfleustodau yn dilyn buddsoddiad cyfalaf, wedi ei fesur yn erbyn gwaelodlin cyn-fuddsoddi.

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Lle bo modd, dylai prosiectau sefydlu mesurau gwaelodlin cyn buddsoddiadau cyfalaf er mwyn deall i ba raddau y gellir priodoli gwelliannau i'r buddsoddiad.
- Dylai mesuriadau o ddangosyddion perfformiad allweddol wahaniaethu'n glir rhwng y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol tymor hwy. Mae hyn oherwydd y gall adeiladu hefyd gynhyrchu effeithiau amgylcheddol negyddol tymor byr, nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor gwirioneddol y sefydliad.
- Pan fo modd, dylai cyfleusterau gyd-fynd â safonau adrodd amgylcheddol cydnabyddedig megis y 'Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net' ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)), yn ogystal â mabwysiadu capasiti monitro technegol tebyg pan fo modd. Bydd hyn yn gwella cywirdeb y data a gesglir ymhellach, ac yn cynorthwyo'r gallu i gymharu ar draws prosiectau.
- Dylai pob prosiect nodi amserlen ar gyfer darparu adroddiad. Fel isafswm, dylai pob prosiect fonitro ei wybodaeth yn flynyddol er mwyn sicrhau bod modd cymharu data a gesglir ar draws prosiectau.

7. Hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau

Diben a pherthnasedd

Mae hygyrchedd a chynhwysiant gwasanaethau yn cynnwys gwelliannau i hygyrchedd corfforol, mynediad digidol neu ddatblygu gweithgareddau sydd wedi eu targedu'n benodol at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau â blaenoriaeth. Nod buddsoddiadau cyfalaf yw nid yn unig gwella hygyrchedd drwy gael gwared ar rwystrau ffisegol ond hefyd lleihau rhwystrau i gyfranogiad ac ehangu mynediad at wasanaethau,

cyfleusterau a gweithgareddau diwylliannol, creadigol a threftadaeth ar gyfer ystod ehangach o gynulleidfaoedd a chymunedau. Bydd monitro'r teulu hwn o ddangosyddion yn helpu i asesu i ba raddau y mae cyfalaf, yn ogystal â buddsoddiadau eraill, wedi cyfrannu at greu cyfranogiad mwy cynhwysol a chyfartal yn arlwy diwylliannol Cymru.

Cymhwysedd a'r gallu i gymharu

Mae nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol sy'n debygol o fod yn berthnasol ar draws pob prosiect. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall prosiectau unigol fabwysiadu gwahanol ddulliau tuag at wella hygyrchedd a chynhwysiant yn seiliedig ar eu maint, eu model gwasanaeth a'u cynulleidfaoedd. Er enghraifft, gall theatr ganolbwyntio ar wella hygyrchedd synhwyraidd perfformiadau, tra gall amgueddfa flaenoriaethu gwelliannau ffisegol i wella hygyrchedd casgliadau. Felly, awgrymir cymhariaeth ar lefel y teulu o ddangosyddion.

Dangosyddion perfformiad allweddol cymaradwy

Ni ddisgwylir i unrhyw ddangosydd perfformiad allweddol o fewn y teulu hwn o ddangosyddion fod yn berthnasol yn gyson ar draws pob prosiect.

Dangosyddion perfformiad allweddol penodol i'r prosiect darluniadol

Gallai enghreifftiau o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol i brosiectau gynnwys y canlynol:

- cyfran y gwasanaethau a ddarperir sy'n ymgorffori mesurau hygyrchedd megis perfformiadau neu gasgliadau wedi eu dehongli gan Iaith Arwyddion Prydain neu sain ddisgrifiad.
- cyfran y gwasanaethau a ddarperir sy'n ymgorffori deunyddiau dehongli dwyieithog.
- nifer y digwyddiadau neu'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd â blaenoriaeth (e.e. cynulleidfaoedd ag anghenion addysgol arbennig, cynulleidfaoedd niwrowahanol, defnyddwyr anabl, cymunedau heb wasanaeth digonol).
- nifer y sesiynau dysgu neu ymgysylltu a gyflwynwyd i ysgolion neu grwpiau cymunedol.
- nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio cyfleusterau di-risiau neu gyfleusterau eraill wedi eu haddasu yn dilyn gwaith adnewyddu.
- canran yr ymwelwyr sy'n nodi bod cyfleusterau yn hygyrch ac yn groesawgar.

Ystyriaethau ar gyfer dangosyddion monitro

- Dylai prosiectau ddiffinio'r gynulleidfa darged yn glir, a dylid ymdrin â hygyrchedd gan eu dangosyddion perfformiad allweddol (h.y. hygyrchedd corfforol, hygyrchedd synhwyraidd neu eraill).
- Pan fo'n ymarferol, dylai prosiectau sefydlu gwybodaeth sylfaenol am hygyrchedd er mwyn deall maint y gwelliannau y gellir eu priodoli i'r buddsoddiadau.

- Gellir monitro dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol gan ddefnyddio offer fel arolygon defnyddwyr a chofnodi data dangosyddion monitro yn fewnol.
- Dylai pob prosiect nodi amserlen ar gyfer darparu adroddiad. Fel isafswm, dylai pob prosiect fonitro ei wybodaeth yn flynyddol er mwyn sicrhau bod modd cymharu data a gesglir ar draws prosiectau.
- Er mwyn sicrhau cymesuredd â maint a chapasiti sefydliadol, dylai prosiectau llai a ariennir gan grantiau o leiaf fodloni gofynion rheoleiddio presennol, megis y rheini ar fynediad i adeiladau a defnydd ohonynt ([Llywodraeth Cymru, 2017](#)).